**ATODIAD 3**

**ARBEDION**

1. Yr arbedion sydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar bobl Gwynedd yw arbedion effeithlonrwydd, ac yn arbennig rheiny gellir gweithredu yn y swyddfa gefn. Fodd bynnag mae’r cyfleoedd ar gyfer darganfod y fath arbedion wedi lleihau’n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, wrth i ni eu gwireddu er mwyn darganfod yr arbedion sylweddol y bu’n rhaid i ni eu darganfod dros y cyfnod.

2. Serch hynny, mae’r amrywiol adrannau wedi canfod cyfleoedd i gyflawni mwy o arbedion drwy edrych ar drefniadau neu leihau cyllidebau swyddfa gefn. Nodir y cynlluniau yma yng nghyfeirnodau 1.1 i 1.43 yn y tablau isod.

3. Mae yna arbedion effeithlonrwydd pellach i’w gwneud drwy ddarganfod ffyrdd gwahanol o gyflawni gwasanaethau, ac fe nodir y rhain yng nghyfeirnodau 2.1 i 2.19 isod.

4. Mae yna gyfleoedd hefyd wedi cael eu hadnabod i greu arbedion drwy fuddsoddi ac mae’r rhain yn cael eu hadnabod yng nghyfeirnodau 3.1 i 3.6.

5. Wedi hynny, mae yna wasanaethau eraill lle mae angen i ni ystyried y cyfleoedd codi incwm er mwyn gwarchod gwasanaethau hanfodol y Cyngor. Mae'r rhain i’w gweld yng nghyfeirnodau 4.1 i 4.28.

6. Yn y diwedd fodd bynnag, mae’n rhaid i ni ddarganfod arbedion mewn mannau sy’n mynd i gael effaith ar bobl Gwynedd ac fe fydd yr effaith hwnnw yn amrywio o gynllun i gynllun.

7. Y ffordd orau o isafu’r effaith yw darbwyllo eraill i gymryd y swyddogaeth drosodd, ac mae yna ddau gynllun o’r fath sy’n ymddangos yng nghyfeirnodau 5.1 i 5.2 isod.

8. Yng nghyfeirnodau 6.1 i 6.27, nodir cynlluniau eraill gallwn eu gwireddu, gan dderbyn fod yna effaith am fod ar ein trigolion, ond gan dderbyn mai rhain yw’r rhai lle bydd yr effaith leiaf yn cael ei weld.

9. Mae’n bwysig nodi fod y rhestr yma wedi cael ei lunio gan ddwyn i gof yr hyn sy’n ymddangos yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

10. Yn amlwg, mae Addysg o ansawdd, agweddau sylweddol o’r maes gofal, a dwy agwedd o faes Bwrdeistrefol (sef casglu gwastraff ac ail-gylchu, ynghyd â chanolfannau ail-gychu) yn ymddangos yn y 10 maes mwyaf pwysig i bobl Gwynedd.

11. Wedi dweud hynny fe welir fod popeth yr ydym yn ei wneud yn bwysig i rywun. Hyd yn oed gyda’r gweithgaredd ddaeth allan fel yr un lleiaf pwysig ar gyfartaledd o’r holl wasanaethau yr ydym yn eu cyflawni, fe welir o dudalen 17 yr adroddiad fod tua 100 o ymatebwyr wedi dweud ei fod o’n un o’r pethau mwyaf pwysig iddynt hwy.

12. Gan fod y meysydd Gofal ac Addysg yn gyfrifol am 62% o wariant y Cyngor mae'n amhosibl eu hepgor o unrhyw gyfraniad at yr arbedion, ond fe welir o'r rhestr nad oes bwriad gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau cyflwynir yma er penderfyniad ar gyfer 2019/20. Ymhellach, mae'r elfennau y mae gofyn i'r meysydd Gofal ac Addysg gyfrannu yn cael eu cyfyngu i arbedion effeithlonrwydd, neu arbedion sydd yn cael effaith ar yr ymylon.

13. O ran y grwpiau a nodweddion gwarchodedig, fe welwyd fod trafnidiaeth gyhoeddus yn cael lle amlwg yn eu blaenoriaethau hwy. Felly, mae'r rhestr isod yn fwriadol yn ceisio gwarchod y maes hwnnw rhag unrhyw ostyngiadau cyllidol, er ein bod yn ymwybodol fod costau yn cynyddu'n sylweddol a bydd yn sialens cadw pob gwasanaeth cyfredol i fynd yng nghyd-destun y gyllideb sydd ganddynt.

14. Fe welir hefyd yn y ddogfen fod y sector fusnes yn naturiol yn cymryd agwedd dra wahanol i drigolion Gwynedd, ac yn nodi fod nifer o'r meysydd sydd yn ymwneud â'r sector fusnes yn naturiol yn fwy pwysig iddynt. Wrth lunio'r cynigion, rydym wedi ceisio osgoi effeithiau mwyaf andwyol unrhyw ostyngiadau yn y maes, gan geisio cyfyngu hynny i'r lleiafswm posibl, ond nid oes modd osgoi elfen o leihad yn ein gweithgareddau. Mae'r warchodaeth y byddem yn ei roddi yn debygol o olygu Treth Cyngor uwch na fyddem yn reddfol yn dymuno ei weld, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi elfen o'n cyllideb yn y meysydd yma.

15. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, penderfynodd y Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau arbedion a restrir yng nghyfeirnodau 3.1 i 6.27 isod. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2019, a cyflwynir dadansoddiad o'r canlyniadau yn Atodiad 11.

16. Cafwyd cyfle i drafod yr ymatebion a'r dadansoddiad ynghyd â'r effeithiau posib mewn gweithdy anffurfiol o'r holl aelodau'r Cyngor ar 5 Chwefror.

17. Er mwyn sefydlu cydsyniad o'r ffordd orau ymlaen, trafodwyd canlyniadau penodol o'r ymgynghoriad i ystyried os dylid lleihau'r cynnydd 5.5% arfaethedig yn y Dreth Cyngor drwy weithredu rhagor o doriadau. Dengys yr ymgynghoriad fod dros hanner yr ymatebwyr o blaid cynnig y Cabinet, neu'r opsiwn i godi'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5% er mwyn peidio gorfod gwneud cymaint o arbedion. Roedd consensws yn y gweithdy Aelodau ar 5 Chwefror y byddai effaith y toriadau pellach yn annerbyniol.

18. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynigion i atal rhag gweithredu rhai cynlluniau arbedion penodol, gan felly gynyddu'r Dreth Cyngor o fwy na 5.5%. Ddaru'r gweithdy bwyso a mesur effaith posib y cynigion a rhesymau'r ymatebwyr dros eu cyflwyno. Detholwyd 5 cynllun ar gyfer ystyriaeth bellach, ar sail yr ardrawiad posib, a gellir gweld y cynlluniau rheini yn Atodiad 12. Mae'r cyfiawnhad cyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 11, yn ôl y nifer o sylwadau a dderbyniwyd.

19. Gall gweithredu rhai o'r arbedion, wrth gwrs, orfod dilyn prosesau statudol a byddent yn ddarostyngedig i ganlyniadau prosesau o'r fath. Yn amlwg mae'r argymhelliad ac unrhyw benderfyniad yn cydnabod hyn ac nid yw yn rhagfarnu eu deilliannau.

20. Mae'r cynigion a nodir yn y rhestr ganlynol yn cynhyrchu'r arbedion isod yn 2019/20. Mae yna nifer o'r cynlluniau yma'n gwireddu arbedion mewn blynyddoedd dilynol hefyd sy'n ein helpu i gynllunio ymlaen –

| | | £ |
|---|---|---:|
| Rhan 1 | Effeithlonrwydd Swyddfa gefn | 1,272,980 |
| Rhan 2 | Effeithlonrwydd pellach | 269,370 |
| Rhan 3 | Buddsoddi i arbed | 21,500 |
| Rhan 4 | Cynyddu incwm | 481,590 |
| Rhan 5 | Atal ond gofyn i eraill gymryd drosodd (arbediad yn cael ei gyflawni mewn blynyddoedd dilynol) | - |
| Rhan 6 | Arbedion ag effaith (i wahanol raddau) | 406,490 |
| | **Cyfanswm 2019/20** | **2,451,930** |

Atodiad 3

| Cyf. | Cynllun | 2019/20 | 2020/21 ymlaen | Eglurhad | Crynodeb o'r effaith cydraddoldeb | Linc i'r asesiad effaith cydraddoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e offer swyddfa a TG) | £20,000 | £40,000 | Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar waith o reoli pryniant categorïau corfforaethol ac yn adnabod cyfleoedd i brynu'n rhatach. Enghreifftiau o hyn yw rheoli a phrynu'n deunydd fel offer swyddfa, dodrefn swyddfa, dillad diogelwch, Technoleg Gwybodaeth, Printio ayyb. yn well. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.2 | Gosod costau yn erbyn cyllidebau cyfalaf | £22,500 | £22,500 | Mae'r swyddogion sy'n gweithio llawn amser ar y rhaglen Ysgolion G21 ar hyn o bryd yn cael eu hariannu allan o refeniw'r Gwasanaeth. Bwriedir gosod rhai costau yn erbyn y grant Ysgolion G21. Bydd rhaid gwneud achos busnes ar gyfer pob cynllun unigol. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.3 | Lleihau costau swyddfeydd drwy osod gofod gwag | £70,000 | £0 | Ystyrir fod yna gyfleoedd i wneud gwell defnydd o ofod swyddfa drwy gywasgu ychydig a chreu gofod gwag i'w osod i denantiaid ar rent masnachol. Angen gwaith marchnata, addasu gofod a negodi gyda darpar denantiaid. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.4 | Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn Adran Amgylchedd | £11,880 | £23,120 | Gan fod swyddfa gefn dau Wasanaeth wedi uno i greu un Uned, mae posibiliadau o welliannau effeithlonrwydd a rhesymoli'r defnydd o sustemau cyfrifiadurol swyddfa gefn. Mae'r gwaith yn cefnogi dyletswyddau statudol y gwasanaeth, a hynny'n aml iawn o gychwyn hyd at ddiwedd y dyletswyddau amrywiol. Gall fod effaith o ran oedi ar drigolion Gwynedd wrth ymdrin â mater cynllunio, gwarchod y cyhoedd a pridiannau tir. Anodd yw rhagweld beth yn union fydd lefel yr oedi, ond bydd yna lai o gapasiti er y bydd swmp y gwaith yr un fath. Y cwestiwn yw a fydd modd gwneud yn iawn am y llai o gapasiti | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod ond bydd yr Adran yn monitro effaith yn enwedig ym maes anabledd a'r iaith Gymraeg | [www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad1](www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad1) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | drwy wella effeithlonrwydd. Ni fyddwn yn gwybod hyd nes y byddwn yn ceisio ei gyflawni. | | |
| 1.5 | Dileu swydd o'r Gwasanaeth Diogelwch Eiddo | £0 | £30,000 | Mae'r uned hon wedi bod drwy ymarferiad 'Ffordd Gwynedd' arweiniodd at drefniadau gweithio newydd a lleihad mewn costau refeniw blynyddol oddeutu £55,000. Mae'r perfformiad ar y dyletswyddau craidd yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'r maes yn un lle mae gwaith uwchlaw'r dyletswyddau craidd yn codi ar hap/ byr rybudd yn dilyn digwyddiadau iechyd a diogelwch sylweddol mewn llefydd eraill e.e. Grenfell, wal fewnol yn disgyn ar blentyn mewn ysgol yn yr Alban, pryderon newydd am Radon, gofynion archwilio newydd osodir gan y cwmni yswiriant, ymateb canlyniadau gwael profion dwr yfed ar fanddaliadau ayb. O leihau'r gyllideb hon ni fyddai adnodd o fewn y tîm i ymdopi a'r math yma o waith sydd uwchlaw'r dyletswyddau craidd | Wedi ystyried yr effaith yn ofalus, mae'r Adran wedi adnabod ffyrdd amgen o gyflawni'r yr un gwaith a fydd yn golygu fod pob safle yn cael ei archwilio fel ag y mae heddiw ac felly yn osgoi effaith ar y defnyddwyr.eddion oedran ac anabledd. Angen asesiad pellach | |
| 1.6 | Arbedion ailstrwythuro blaenorol o fewn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | £30,000 | £0 | Mae'r arbedion yma sy'n deillio o weddillion nifer o ail-strwythuriadau o fewn yr Adran dros y 3 blynedd diwethaf wedi eu gweithredu eisoes ac nid oes unrhyw oblygiadau pellach iddynt. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.7 | Lleihau cyllidebau costau teithio a chyflenwadau Adran Cefnogarth Gorfforaethol oddeutu 10% | £40,000 | £0 | Mae'r arbedion yma mewn costau teithio a chyflenwadau swyddfa wedi cael eu gweithredu eisoes fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer arbedion pellach ac felly ni fydd effaith ar bobl Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.8 | Terfynu cytundeb meddalwedd | £10,000 | £0 | Mae'r Uned Ymchwil a Dadansoddeg yn defnyddio sustem feddalwedd arbenigol yn ôl y gofyn ond edrychir i ddefnyddio ffynonellau amgen rhatach heb lesteirio gormod ar waith yr Uned. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.9 | Dileu swydd reolaethol o fewn y Gwasanaeth Datblygu Sefydliad ac uno’r Gwasanaeth hefo’r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu | £44,000 | £0 | Mae yna dair swydd o fewn y Gwasanaeth. Dileuwyd swydd Rheolwr y Gwasanaeth ddiwedd Mehefin eleni gan uno'r cyn-wasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu oddi ar y 1af o Orffennaf. Rhagwelir y gellir parhau i gyflawni'r gwaith hwn heb effaith ar y ddarpariaeth bresennol ond o ystyried y cyfnod byr a fu ers uno'r ddau Wasanaeth, byddai'n gynamserol i ddatgan na fydd yna unrhyw effaith ar y gwasanaeth a ddarperir. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.10 | Adolygu'r gefnogaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | £15,000 | £0 | Lleihau o swydd a hanner i un swydd (swydd eisoes yn wag). Gwaith gweinyddol yw hwn sy'n ofynnol i ni ei wneud ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd angen i'r Bwrdd fod yn fwy miniog o ran yr hyn y gofynnir i'r tîm cefnogol ei wneud yn ogystal â sicrhau cyfraniadau o adnodd a chapasiti gan y partneriaid eraill. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.11 | Ail raddio dwy swydd o fewn yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol sy'n cefnogi gwaith y Cyngor | £15,000 | £0 | Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes yn Wasanaeth a sefydlwyd o'r newydd ym Mehefin, 2017 ac mae'n gyfuniad o sawl cyn-wasanaeth bychan. Mae angen moderneiddio'r strwythur a etifeddwyd yn sgil y newidiadau sydd wedi digwydd yn y ffordd o weithio o fewn y Cyngor e.e. perchnogaeth a chyfrifoldeb am berfformiad yn ganolog i'r disgwyliadau o'n rheolwyr yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb penodol i'r gwasanaethau corfforaethol. Mae adolygiad o gyfrifoldebau dwy swydd wedi arwain at swydd ddisgrifiadau diwygiedig sy'n cyfarch gofynion ar gyfer y dyfodol ac mae hyn wedi arwain at | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | arfarniadau swyddi sydd yn dyfarnu lefelau cyflog is. | | |
| 1.12 | Trosglwyddo i sustem swyddfa gefn cyswllt cwsmer newydd (Ffos) | £0 | £23,000 | Mae'r gwasanaeth wedi penderfynu newid y sustem swyddfa gefn o un a ddarparwyd gan gyflenwr allanol i sustem a ddyluniwyd yn fewnol. Bydd hyn yn arbed costau refeniw wrth osgoi talu am drwydded flynyddol i gwmni allanol. Anelir i gwblhau'r gwaith o drosglwyddo'n llwyr i'r sustem fewnol erbyn Ebrill, 2020. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.13 | Lleihau cefnogaeth weinyddol o fewn y Gwasanaeth Cefnogol drwy gyflwyno systemau TG | £65,000 | £39,000 | Lleihau'r adnodd gweinyddol wrth gyflwyno rhagor o fodiwlau Hunan Wasanaeth Staff (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfer rheolwyr a staff. Rhagwelir y gellid rhesymoli'r strwythur yn dilyn cyflwyno'r modiwlau hyn gan ddileu'r angen i fewnbynnu data mwy nag unwaith o fewn llif gwaith yn y meysydd recriwtio a phenodi, prosesu amserlenni a chofnodi absenoldebau staff. Pwysleisir bod angen i'r modiwlau hyn fod wedi'u datblygu a'u cyflwyno yn llawn cyn y gellid gwireddu'r arbedion pellach o fewn y Gwasanaeth. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.14 | Dileu swydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth yn sgil cyflwyno system electronig | £30,000 | £0 | Rhan o swyddogaeth y Gwasanaeth yw cefnogi adrannau gyda'r gwaith o gadw cofnodion a dogfennau. Gyda'r lleihad disgwyliedig yn y gofyn am gefnogaeth yn sgil cyflwyno sustem electronig 'iGwynedd', mae'r Gwasanaeth yn credu y gellir ymdopi gyda'r gostyngiad mewn adnodd, heb effeithio yn ormodol ar wasanaethau'r Cyngor. Nid yw igwynedd wedi dwyn llawn ffrwyth eto ond credir y gellid lleddfu unrhyw effaith tymor byr o ddileu'r swydd hon | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | trwy'r buddsoddiad presennol mewn swyddi dros-dro a gyllidir yn gorfforaethol er mwyn cyflwyno 'iGwynedd' yn llawn ar draws y Cyngor. | | |
| 1.15 | Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol. (lleihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu. | £0 | £80,000 | Rydym yn ceisio newid i fodel gweithredu lle mae llai o ddibyniaeth ar y gwasanaeth ymgynghorol adnoddau dynol. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo sgiliau i reolwyr fedru cyflawni eu rôl yn effeithiol ac fe fyddai hyn yn galluogi i ni leihau'r nifer o swyddogion o 2 swydd allan o 10.5. Y risg yw nad yw'r baich gwaith yn lleihau oherwydd nad yw rheolwyr yn gallu dygymod. Bydd hefyd angen sicrhau fod y gefnogaeth briodol ar gael mewn ffyrdd amgen. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.16 | Lleihau'r gefnogaeth i'r Tîm Rheoli ac i gefnogi rheolaeth project. | £68,750 | £41,250 | Byddai un rhan o'r arbediad hwn yn golygu lleihau'r gefnogaeth uniongyrchol dydd i ddydd i'r Tîm Rheoli tra byddai'r ail ran yn golygu lleihau'r arbenigedd o fewn y Cyngor ym maes rheolaeth prosiect ac yn cyfyngu rhyw gymaint ar yr hyblygrwydd i ymateb i ofynion ar y Gwasanaeth. Credir y byddai modd dygymod hefo'r gofynion arferol gyda pheth newid yn y modd o weithio, ond efallai y byddai'r ddisgyblaeth o reoli prosiect felly yn dirywio dros amser. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.17 | Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad | £0 | £54,000 | Byddai dileu'r gwasanaeth yma yn golygu na fyddai'r adnodd presennol ar gael i roi sylw i fuddiannau staff, i gynnal arolygon, i hyrwyddo'r diwylliant a chynnig cefnogaeth i reolwyr er mwyn gwreiddio egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' nac ychwaith i weithredu fel y pwynt cyswllt gyda phobl Gwynedd ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Mae'r uned yma wedi bod yn llwyddiannus iawn yn datblygu buddion i staff | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan gynnwys negodi disgownts mewn siopau lleol ac annog siopau lleol i'w cynnig er mwyn cael staff i brynu'n lleol. Ni fyddai modd cynnal y gweithgaredd hwnnw gan olygu y byddai'n dirywio dros amser tra byddai'r agweddau eraill o'r gwaith, o anghenraid, yn derbyn llawer llai o sylw yn sgil y gofynion eraill ar y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad. | | |
| 1.18 | Lleihau costau llinellau ffon drwy ddefnyddio mwy ar VOIP | £38,000 | £38,000 | Rydym eisoes wedi trosglwyddo nifer o linellau ffon y Cyngor i fod yn defnyddio VOIP : hynny yw, defnyddio llinellau cyfrifiadurol i wneud galwadau ffôn yn hytrach na thalu am linellau ffon draddodiadol. Byddai modd ymestyn y cysyniad tu hwnt i brif swyddfeydd y Cyngor i sefydliadau eraill, ysgolion, cartrefi gofal, ac unrhyw adeilad sydd â chyswllt rhwydwaith addas sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth TG gan arbed arian. Ni fyddai'n cael effaith ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.19 | Negodi ffioedd Archwilio Allanol | £40,000 | £0 | Dengys ein proffil risg y dylem fedru ail negodi prisiau. Ni fydd yna oblygiadau ar wasanaethau'r Cyngor nac ar bobl Gwynedd. Mae yna risg y byddent yn gwrthod, ond bu peth lwyddiant mewn blynyddoedd diweddar. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.20 | Newid dull ariannu Caffael Systemau | £35,000 | £0 | Lleihau cyllideb darparu meddalwedd gyda’r bwriad o isafu'r gefnogaeth ymgynghorol ar ein systemau. Ni fyddai unrhyw oblygiadau i bobl Gwynedd nac effaith ar wasanaethau yn y tymor-byr. Gall fod angen ariannu datblygiad yn y tymor-hir. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.21 | Lleihau teithio o fewn yr Adran Gyllid o 30% | £5,750 | £0 | Lleihau'r gyllideb teithio ar gyfer yr adran drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig, megis Skype for Business, cynllunio siwrneiau, ayb. Felly, ni ddylai gael effaith ar bobl Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.22 | Lleihau Staffio Gwasanaeth Incwm (lleihau staffio o 8%) | £11,380 | £0 | Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae rhan o swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.23 | Lleihau Staffio Gwasanaeth Cyflogau o 9% | £19,500 | £0 | Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.24 | Lleihau staffio yn y maes cyfrifeg | £49,130 | £0 | Yn dilyn trosiant staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.25 | Defnydd tanwariant un tro i ariannu hyfforddiant | £34,400 | £0 | Lleihau'r gyllideb barhaol i ariannu hyfforddiant gyda'r bwriad o ddefnyddio tanwariant un-tro i'w ariannu i'r dyfodol, sydd yn golygu fod unrhyw hyfforddiant proffesiynol yn y maes Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn ddibynnol ar fod arian un-tro (tanwariant neu gronfa adrannol) ar gael i'w ariannu. Dim effaith ar gefnogaeth ariannol i'r adrannau / pobl Gwynedd, cyn belled bod y lefel o hyfforddiant yn cael ei gynnal. Risg yn y tymor hir fod staff ddim efo'r sgiliau angenrheidiol os na fydd y tanwariant ar gael, a byddai gwasanaeth Cyllid heb swyddogion wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol yn risg sylweddol i allu'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ar ran pobl Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.26 | Ail negodi cytundeb rhwydwaith y Cyngor | £170,000 | £0 | Mae hwn wedi ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru a'n darparwr, gyda chostau'n gostwng £200,000 y flwyddyn. Byddwn angen buddsoddi £30,000 y flwyddyn er mwyn cryfhau ein cyswllt i'r rhyngrwyd oherwydd cynnydd naturiol yn nefnydd y cyfryngau digidol. Bydd angen tynnu cyllidebau i'r canol (o bob adran o'r Cyngor ac o gyllidebau datganoledig yr ysgolion) er mwyn gwireddu lleihad yn y costau fel arbedion. Ni fydd effaith ar wasanaethau cefnogol i'r adrannau na phobl Gwynedd. Mae'n gyfle i wneud arbedion a chryfhau ein darpariaeth. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.27 | Lleihau costau cyflenwadau o 2.5% | £16,330 | £0 | Ystyrir fod modd lleihau'r gyllideb cyflenwadau drwy uchafu'r defnydd o ddulliau gweithio electronig ac osgoi cost papur, argraffu, ayb. Heb gael unrhyw effaith ar bobl Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.28 | Dileu swydd o'r Gwasanaeth Incwm | £5,850 | £17,550 | Ar hyn o bryd mae yna swydd sydd yn wag, ond a lenwyd ar sail dros dro ar hyn o bryd yn y Tîm Adennill dyledion cyffredinol. Byddai modd dileu'r swydd hon heb ddiswyddo aelod o staff parhaol, ond mae'n debyg y byddai yna effaith ar ein gallu i adennill dyledion. Ni wyddom yn union beth fyddai'r effaith hwnnw heb arbrofi i weld. Byddai colli un person sy'n adennill dyledion yn golygu llai o ymdrech yn ceisio adennill gyda'r risg y byddem yn colli mwy na fyddem yn ei arbed. Pe ddigwyddith hynny byddai angen i ni ystyried adfer yr arbediad. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.29 | Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth | £133,500 | £400,500 | Yn seiliedig ar dystiolaeth cynllun peilot Alltwen a thystiolaeth o siroedd eraill megis Torfaen, mae rhyddhau amser staff i gael sgyrsiau cychwynnol addas er cael datrysiadau cywir y tro cyntaf ynghyd ag integreiddio gyda chydweithwyr iechyd a trydydd sector, yn gallu arwain at well canlyniadau a hynny ar lai o gost. Yn aml iawn, mae hyn yn golygu datrysiadau ataliol eu natur o fewn eu rhwydweithiau a'u cymunedau lleol, yn hytrach na dibynnu'n unig ar becynnau gofal traddodiadol neu 'fwydlen' o wasanaethau Gofal Cymdeithasol. O ran hyn felly, rhagwelir y bydd yna effaith cadarnhaol ar yr unigolyn trwy allu cwrdd â'r hyn sy'n bwysig iddynt yn amserol ac mewn ffurf integredig gyda phartneriaid allweddol megis y Gwasanaeth Iechyd a'r 3ydd sector.<br><br>Ond, er y dystiolaeth ddechreuol sydd gennym, mae'n amhosib rhagweld beth yw lefel yr arbedion effeithlonrwydd sydd yn bosib trwy ymestyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ar draws y gwasanaeth. Y prif resymau am hyn yw bod y galw ar ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu a chyflyrau y rhai sydd yn derbyn cefnogaeth yn dwysau, a'r ffaith fod llwyddiant newid y ffordd rydym yn gweithio yn gwbl ddibynnol ar ein gallu i greu cymunedau mwy gwydn ac integreiddio ein gwaith gyda phartneriaid allweddol i'r dyfodol. Rhaid disgwyl nes gweld profiad y tranche cyntaf cyn dibynnu ar y swm arbedion yma. | Dylai y newid yma yn y dull o weithio gael effaith gadarnhaol ar bob unigolyn fydd yn derbyn gwybodaeth, cyngor neu gymorth gan y gwasanaethau gofal. Bydd anghenion pob achos yn cael ei asesu yn unigol a darpariaeth addas a phriodol yn cael ei gynnig. | [www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad2](www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad2) |
| 1.30 | Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion | £40,000 | £40,000 | Mae adolygiad 'Ffordd Gwynedd' a modiwlau cyllid y system TG newydd yn cynnig cyfleoedd i newid a gwella prosesau gwaith cyfredol.<br><br>Rhagwelir y bydd newidiadau hyn yn arwain at ail strwythuro i dimau o fewn y gwasanaeth busnes. | Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Uned Busnes yn cefnogi pawb sydd yn derbyn cefnogaeth gan yr Adran Ni ddylai'r unigolion weld unrhyw effaith ond bydd rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar unrhyw effaith | [www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad3](www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad3) |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rhagwelir y bydd y cynllun yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ac felly ddim effaith negyddol ar drigolion. Er hynny mae risg ynghlwm na fydd y cynllun y cyflawni'r arbediad yn llawn ac na fydd y rhagdybiaethau cynnar yn gyraeddadwy | a gwneud y newidiadau gam wrth gam. Rhagwelir y bydd addasu dulliau gwaith yn ddi-effaith hyd at drothwy ond y byddai effaith ar y gefnogaeth a gynigir os yn camu dros y trothwy hwnnw. Bydd angen monitro parhaus i sicrhau na fydd hynny yn digwydd. | |
| 1.31 | Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion | £0 | £135,000 | Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau gwaith i adnabod unrhyw gyfleoedd effeithlonrwydd pellach sy'n bodoli o fewn yr Adran. O ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd allai arwain at hyd at 8 swydd FTE yn llai, a'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu canfod dros y blynyddoedd diweddar, y tebygrwydd ydi na fydd posib cyflawni'r swm dan sylw trwy arbedion effeithlonrwydd yn unig.<br><br>Er hyn tybir y bydd yr ymarferiad o adolygu ein prosesau gwaith yn ein helpu i adnabod y toriadau fyddai'n cael yr effaith lleiaf ar bobl Gwynedd. Rhagwelwn y gallai'r toriadau yma gynnwys cynigion i dderbyn gostyngiad cyffredinol mewn safon cyflawni rhai tasgau sy'n angenrheidiol eu natur o ran gofynion cyfreithiol, yn ogystal hefyd a pheidio gwneud rhai tasgau sydd o bosib o natur fwy datblygol.<br><br>Yn benodol o ran yr adolygiad cyfredol o roi strwythur newydd cefnogol yn ei le, tybiwn y bydd hyn yn rhoi'r balans cywir i ni i'r dyfodol o ran sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o amser staff rheng flaen. Y risg sydd ynghlwm a gwneud toriadau i'r gefnogaeth fusnes yw'r ffaith y byddai'n rhaid i weithwyr rheng flaen ymgymryd â thasgau ychwanegol ac arbenigol sy'n annhebygol o fod yn gryfder ganddynt, gan | Mae'r cynllun yn ymwneud â gwasanaethau sydd yn cefnogi gwasanaethau llinell flaen yr Adran. Ni ddylai unigolion sy'n derbyn gwasanaeth weld unrhyw effaith ond bydd rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar hyn gam wrth gam. Os yw monitro parhaus yn dangos bod y newidiadau mewnol yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau llinell flaen yna bydd angen addasu neu gyfyngu unrhyw newidiadau pellach. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad4 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | arwain at sefyllfa ble byddent wrth reswm wedyn yn treulio llai o amser gyda thrigolion. Rhagwelir felly y byddai gweithredu'r elfen 'toriadau' fel rhan o'r cynllun hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar allu ein staff rheng flaen i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion, deall anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol, yn ogystal â gallu'r Timau Gwaith Cymdeithasol i fod yn rheoli'r galw yn effeithiol. Mae'r gefnogaeth fusnes yn gosod sylfaen gwaith gwbl allweddol os am lwyddo gyda'r sialens o reoli'r galw ar ein gwasanaethau. | | |
| 1.32 | Adolygiad o drefniadau gweithredu o fewn y maes Priffyrdd | £37,500 | £12,500 | O gynnal adolygiad 'Ffordd Gwynedd' 'rydym wedi adnabod ffyrdd o ddiddymu dyblygu gwaith rhwng yr elfen gomisiynu a'r gweithlu priffyrdd. Mae'n annhebygol y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth er y gallasai arwain at lai o staff i ymateb i ymholiadau ar brydiau. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.33 | Rhesymoli Gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir | £0 | £130,000 | Gellir rhesymoli'r nifer gweithdai sydd gennym i arbed arian. Nid yw'n debygol y bydd yna unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd ond yn amlwg fe allasem weld colli swyddi mecanics yn lleol hyd at 6 (F.T.E).<br><br>Nid yw'r Gwasanaeth Fflyd wedi cynnal cynllun busnes llawn gogyfer y cynllun arbedion yma nac asesiad risg o ddod lawr o dri safle i ddau. Byddai cau un gweithdy yn golygu y byddai'n rhaid i gerbydau deithio o un ardal i'r llall er cael eu gwasanaethu. Byddai'n ofynnol hefyd buddsoddi o fewn y gweithdai eraill er ymgorffori gwaith o'r gweithdy fyddai'n cau. Fe allasai hyn effeithio'r achos busnes gan ddod a maint yr arbediad net i lawr. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.34 | Lleihau'r gyllideb ffioedd proffesiynol/ cyfreithiol | £7,260 | £0 | Mae 4 llinell gyllideb yn cyfrannu at y cyfanswm yma sydd yn cynnwys cyllideb i brynu gwasanaethau proffesiynol drwy asesiadau yn annibynnol o'r gwasanaeth mewn achosion llys neu cyn cychwyn achos llys a ffioedd cychwyn achosion llys. Mae'r cyllidebau yma yn eistedd gyda'r gwasanaeth plant ac mae tanwariant bychan wedi bod ar y penawdau cyllideb yn hanesyddol. Rhagwelir fod modd lleihau ychydig ar bob un o'r penawdau hyn heb gael ardrawiad ar blant a theuluoedd gan barhau i gyfarfod a'r gofynion llys. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.35 | Lleihau'r gyllideb hyfforddiant o fewn y Gwasanaeth Plant | £8,980 | £0 | Byddai dileu yr elfen hyfforddiant arbenigol o'r gyllideb yn canatau i ni arbed 3% o'r gyllideb IFSS. Ni fyddai hyn yn cael effaith ar blant, teuluoedd nac ar staff. Roedd yr elfen hon yn rhan o'r cyllid oedd ar gael i osod y gwasanaeth newydd statudol yma yn ei le ac roedd trefniadau 'train the trainer' yn bodoli o fewn y gwasanaeth. Nid yw hyn yn hanfodol bellach.<br>'Roedd yna hefyd anghenion hyfforddi arbenigol a oedd yn ofynol wrth sefydlu'r tim trothwy o'r newydd. Erbyn hyn mae'r gofyn hwnnw wedi lleihau yn sylweddol a staff yn ymgymryd a darpariaeth hyfforddiant cyffredinol i weithwyr proffesiynol. Ni fyddai effaith ar ddarparu gwasanaeth uniongyrchol i blant a theuluoedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.36 | Lleihad yng nghyllideb gefnogol yr Adran Plant a Theuluoedd | £14,960 | £0 | Lleihad fyddai hwn yn y gyllideb offer ar gyfer y gwasanaeth fyddai yn cael dim effaith ar blant a theuluoedd a lleihad hefyd yn yr opsiynau i fynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol allan o'r Sir sydd yn gostus o ran prynu a theithio. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.37 | Dileu swydd Swyddog Cefnogol | £29,210 | £0 | Wrth i'r ddau gyn Brif Swyddog roddi'r gorau i'w gwaith ni fydd angen swyddog cefnogol. Mae'r cynllun yma eisoes wedi cael ei weithredu ac ni fydd effaith ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.38 | Dileu cyllideb gweithfeydd corfforaethol | £46,340 | £0 | Rhoddwyd y swm yma o'r neilltu i ariannu cynlluniau corfforaethol wrth ad-drefnu Uwch reolaeth ddiwethaf yn 2014. Yn yr hinsawdd bresennol gellir ei hepgor heb gael effaith ar bobl Gwynedd gan ystyried unrhyw angen i'r dyfodol o unrhyw danwariant neu fid unwaith ac am byth. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.39 | Creu arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Crwner | £5,000 | £0 | Er bod y gwasanaeth yn un statudol ac nad oes gennym lawer o ddewis ynglŷn â faint yr ydym yn ei dalu (gan fod yn rhaid i ni ddigolledu'r crwner am ei gostau). Ystyrir fodd bynnag fod modd edrych am rywfaint o arbedion effeithlonrwydd a bydd adolygiad i adnabod posibiliadau heb effeithio ar bobl Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.40 | Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol (lleihad o 7% yn y gefnogaeth weinyddol) | £6,225 | £6,225 | Ystyrir y byddai modd lleihau'r gefnogaeth weinyddol heb gael llawer o effaith ar drigolion Gwynedd ond mae yna siawns fechan y gallasai effeithio ychydig ar rai elfennau o'r gwaith. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.41 | Dileu'r holl gyllideb cefnogi adolygiadau Ffordd Gwynedd. | £56,030 | £5,340 | Tra bod modd gostwng y gyllideb heb ardrawiad sylweddol byddai'r cynllun yma efallai yn arafu adolygiadau oherwydd methiant i ddatrus y cymorth ariannol sydd ei angen. Byddai'n rhaid i adrannau gyfarch yr angen hynny eu hunain. Wedi dweud hynny nid yw hynny yn afresymol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.42 | Cyfyngu amser staff i fynd ar gyrsiau addysgiadol e.e. cyrsiau BTEC, HNC a gradd. | £9,000 | £0 | Mae'r Adran yn rhoi cyfleoedd i staff fynd ar hyfforddiant tra'n gweithio i'r Cyngor. Drwy cyfyngu'r amser yn ystod oriau gwaith byddai hyn yn golygu fod yna fwy o amser ar gael i ennill ffi drwy gynyddu oriau cynhyrchiol yr adran. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 1.43 | Ail strwythuro rheolaeth yr Adran Ymgynghoriaeth | £11,500 | £11,500 | Mae newid yn ein patrwm gwaith yn golygu fod angen i uwch swyddogion yr adran ennill fwy o ffioedd sydd rŵan yn bosib drwy i YGC wneud mwy o waith tu hwnt i Wynedd e.e. i NMWTRA, Llywodraeth Cymru, y sector breifat a llywodraethau lleol eraill. Golyga hyn felly ofyn i Uwch Swyddogion yr Adran wneud mwy o waith cynhyrchu ffi yn hytrach na gwaith "rheolaethol". | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad | £5,000 | £15,000 | Mae yna adolygiad ('Ffordd Gwynedd') ar y gweill yn yr Uned yma.  Rhagdybir ar sail ein gwybodaeth o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd y bydd cyfleoedd yn codi i ryddhau arbedion drwy'r gwaith hwnnw ond os na fydd hynny yn dwyn ffrwyth mae modd lleihau'r gyllideb drwy leihau rhywfaint ar y gwaith a wneir. | Mae'n bosib y bydd mynediad at hawliau tramwy yn hyd yn oed mwy cyfyngedig i deuluoedd, pobl hŷn a phobl anabl pe na fyddai'r Uned yn gallu cwblhau ei raglen gwaith yn llawn. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5 |
| 2.2 | Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr | £0 | £100,000 | Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth leol eisoes wedi nodi eu bod am leihau nifer yr aelodau etholedig.  Er na fydd yr arbediad ar gael tan ar ôl etholiad Mai 2022, dylid ei gymryd i ystyriaeth rŵan er mwyn osgoi toriadau diangen i wasanaethau. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.3 | Addasu trefn gwirio DBS | £0 | £50,000 | Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yng nghyswllt polisi presennol y Cyngor i ail-wirio cofnod troseddol pob swyddog sy'n cyflawni gwaith ple mae angen gwiriad DBS. Mae pob gwiriad yn costio £44 sy'n golygu bod y Cyngor yn talu'r ffi yma ar ddechrau cyflogaeth swyddog perthnasol ac yna pob 3 blynedd wedi hynny. Mae'n ofyn cyfreithiol i gynnal gwiriad DBS ar bob swyddog a gyflogir o'r newydd yn y meysydd perthnasol ond dewis y Cyngor yw'r ffaith ein bod yn bresennol yn ail-wirio cofnod pob 3 blynedd (er bod cefnogaeth i hynny gan sefydliadau megis yr Arolygaeth Gofal a.y.b.). Byddai peidio cynnal ail-wiriad pob 3 blynedd yn gwireddu arbediad blynyddol o £50,000 i'r Cyngor ac mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn ystyried sut y byddai modd gwneud hyn heb beryglu diogelwch plant ac oedolion bregus h.y. prin iawn yw derbyn unrhyw ddadleniad o gofnod troseddol ar ôl cynnal ail-wiriad sy'n tynnu sylw at drosedd ymysg gweithlu'r Cyngor, a phan fo trosedd wedi'i chyflawni, byddai hynny yn hysbys i'r cyflogwr cyn cynnal yr ail-wiriad. Mae opsiynau eraill fyddai'n gwireddu arbediad | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | llai yn rhan o'r ystyriaeth hefyd ond mae angen gwaith pellach ar y posibiliadau hynny cyn eu cyflwyno. | | |
| 2.4 | Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu | £0 | £26,000 | Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth i'r holl waith a wneir ym meysydd ymgysylltu, gwefan y Cyngor, swyddfa'r wasg, cyfathrebu mewnol, cyfathrebu hefo cynghorwyr a chyfathrebu mewn argyfwng. Byddai lleihad o 1 swydd yn golygu ein bod yn rhagweld y byddai modd parhau i ddarparu gwasanaeth lle byddai ei angen yn ôl blaenoriaethau corfforaethol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.5 | Ail-strwythuro'r gefnogaeth ar gyfer Craffu | £25,000 | £0 | Mae angen sicrhau strwythur sydd hefo'r capasiti i gefnogi gofynion cynyddol trefniadau craffu'r Cyngor. Mae dwy swydd wedi dod yn wag o fewn y Gwasanaeth Democrataidd ac edrychir i ail-gyfeirio adnodd ariannol i bwrpas cefnogi craffu wrth wireddu arbediad ariannol ar yr un pryd. Gellir gwneud hyn yn wyneb adolygiad o drefniadau gwaith sy'n cael ei gynnal o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth yn bresennol h.y. dyma sy'n caniatáu'r arbediad a'r gallu i ail-gyfeirio adnodd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.6 | Lleihau Staffio Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau o 4% | £40,440 | £0 | Mae'r swydd a hanner yma eisoes yn wag o fewn yr uned ac mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny. Byddai peidio â'u llenwi'n barhaol yn golygu y dylem fedru cynnal y perfformiad presennol ond fe fydd yna lai o allu i ddygymod gyda sefyllfaoedd anarferol yn y dyfodol. Tra na ddylid gweld effaith ar drigolion ar adegau o bwysau arferol ~~,~~ bydd effaith o oedi cyn ymateb ar gyfnodau mwy prysur, neu mewn cyfnod o newid trefniadau. | Mae pobl anabl a phobl o leiafrif ethnig yn fwy tebygol fod yn anactif yn economaidd ac felly yn fwy tebygol of dderbyn budd-daliadau. Yn y mwyafrif o achosion, caiff Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor eu talu i unigolion sydd ag anabledd tymor hir yn syth heb wneud cais i'r Cyngor, gan eu bod yn derbyn budd-daliadau a weinyddir gan y DWP hefyd. Felly mae llai o debygolrwydd y byddai oedi mewn delio gyda'u ceisiadau i'w cymharu ag eraill. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad6 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.7 | Trefn slipiau electronig cyflog i bawb | £3,750 | £11,250 | Byddai atal slipiau cyflog papur yn llwyr yn amhoblogaidd ymysg nifer o staff sydd ar hyn o bryd yn ei dderbyn ar bapur. Mae yna berygl y gallai gynyddu'r nifer ymholiadau. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael effaith ar y cyhoedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.8 | Arbedion dros ben o ail-strwythuro diweddar i'r Gwasanaeth Llyfrgell | £15,000 | £0 | Dros y 4 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno cyfres o newidiadau i'w model darparu ac wedi cyflawni arbedion i'r Cyngor yn eu sgil. Mae £15k o arbedion wedi cael eu cynhyrchu uwchlaw y targed a osodwyd i'r gwasanaeth gan y Cyngor ac yn ystod 2018/19 mae'r gyllideb yma yn cael ei defnyddio i helpu gwreiddio'r gwasanaeth newydd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.9 | Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghriccieth a Blaenau Ffestiniog | £25,000 | £75,000 | Mae yna ddwy ganolfan dydd sef Encil Y Coed, Criccieth (18 yn mynychu ar hyn o bryd gyda'r ganolfan yn agored 3 diwrnod yr wythnos) a Blaenau Ffestiniog (15 yn mynychu ar hyn o bryd gan agor 4 diwrnod yr wythnos) lle mae gan gyrff fel Age Cymru bresenoldeb yn ardaloedd eisoes. Mae datblygiadau Hafod Y Gest a Chanolfan Goffa Ffestiniog yn gyfleon i gydweithio.<br><br>Er y bydd parhad gwasanaeth i'r unigolion gall newid darparwr fod yn fater sensitif i fynychwyr a'u teuluoedd. Mae nifer o fynychwyr y ddwy ganolfan eisoes wedi mynd trwy newidiadau rhai blynyddoedd yn ôl wrth gau canolfan dydd Noddfa Madog ym Mhorthmadog lle bu i nifer fawr o fynychwyr y ganolfan symud i Encil y Coed a Blaenau Ffestiniog.<br><br>Mae risg hefyd i unigolion ddewis peidio mynychu'r ddarpariaeth newydd yn yr ardal fyddai yn golygu cynnydd yn y galw am ofal cartref mewn ardaloedd lle mae'n sialens cael gofalwyr i gyflawni pecynnau gofal. | Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â newid y ddarpariaeth trwy weithio mewn partneriaeth. Bydd anghenion pob unigolyn yn parhau i gael ei asesu ar wahân. Nid yw yn gynllun sydd yn dileu gwasanaeth. Bydd yn cael ei ddarparu mewn modd amgen mwy effeithlon. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad7 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae arbedion i'w cael drwy ystyried cynnal y ganolfan mewn lleoliad arall yn yr ardal. Mae canolfan ddydd Blaenau Ffestiniog yn cael ei chynnal yn y ganolfan gymunedol. Rydym yn talu rhent blynyddol i'r ganolfan ac maent wedi nod pryder na fydd yn gallu cynnal ei hun heb y rhent. | | |
| 2.10 | Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo | £0 | £60,000 | Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn darparu gwasanaeth i blant sydd ag anableddau dysgu hyd y maent yn cyrraedd 18 oed ac yna mae'r gwasanaeth oedolion yn comisiynu gwasanaeth iddynt o hynny ymlaen. Mae cyfle i wella cydweithio a manteisio ar yr effeithlonrwydd allasai godi o fod yn cyd-gynllunio'n well. Bydd angen newid diwylliant i ddatblygu gwasanaethau ar sail egwyddorion cyd-weithio gydol oes a bydd angen datblygu trefn cyd-weithio newydd gydag Iechyd ar draws y ddau wasanaeth. Yn gychwynnol, bydd modd i ni graffu'r ffordd orau o gyd-weithio wrth adolygu achosion CHC oed trosglwyddo yn gynt, gan gydweithio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd i gynllunio'r gefnogaeth. | Dylai'r cynllun hwyluso a gwella'r gefnogaeth y mae unigolion a'u teuluoedd yn ei gael yn ystod y cyfnod y mae darpariaeth y gwasanaeth yn trosglwyddo rhwng adrannau y Cyngor. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad8 |
| 2.11 | Adolygu pecynnau gofal anableddau dysgu all-sirol er mwyn adnabod lleoliadau mwy lleol i unigolion | £50,000 | £50,000 | Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o adolygu pecynnau all sirol er mwyn cyd fynd gyda'r strategaeth o ddarparu cefnogaeth ar sail egwyddorion cefnogaeth actif yn y maes anableddau dysgu a'r model adfer (recovery mode) yn y maes iechyd meddwl a rhoi'r cyfle (pan yn addas) i'r sawl sydd eisiau ac angen derbyn cefnogaeth yn lleol. Fel y byddwn yn mynd trwy'r achosion ac yn edrych am ddatblygu cyfleoedd lleol i unigolion rydym yn hyderus o fedru darganfod rhai arbedion ond fe allasai cyrraedd lefel £100k fod yn her, yn enwedig wrth gyrraedd yr achosion hefo anghenion dwys a rheoli ymddygiad dwys. | Mae'r cynllun yn ymwneud â lleihau y ddibyniaeth ar leoliadau all-sirol drud a chryfhau y ddarpariaeth ar lefel lleol. Bydd pob lleoliad neu wasanaeth i gefnogi unigolion yn parhau i gael ei seilio ar asesiad unigol. Ni fydd y gwasanaeth yn newid os na ellir tystiolaethu bod y gwasanaeth sydd ei angen ar gael yn lleol. Dylai lleihau y defnydd o wasanaethau all-sirol hybu datblygiad gwasanaethau lleol a hwyluso cyswllt unigolion gyda'u teuluoedd. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.12 | Hurio Cerbydau Codi yn y Canolfannau Ailgylchu yn hytrach na' prynu | £15,000 | £5,000 | Ar hyn o bryd rydym yn prynu cerbydau codi yn y canolfannau ailgylchu ond dengys adolygiad y byddai modd arbed drwy eu hurio. Ni fyddai unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.13 | Rhesymoli Trefn ar ddyletswydd/ Ar alwad Priffyrdd | £7,500 | £7,500 | Ar hyn o bryd mae gennym drefniadau ar alwad yn y gwasanaeth Priffyrdd sydd yn derbyn a gweithredu ar alwadau gan y cyhoedd; yr heddlu ac asiantaethau eraill am faterion yn ymwneud a chynnal priffyrdd. Ar hyn o bryd trefnir y gwasanaeth ar sail ardaloedd / rhaniad uned gwaith / comisiynu. Byddai modd symud i sefyllfa o gyfuno rhai agweddau o'r drefn neu weithredu ar sail dwy ardal. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.14 | Defnyddio deunydd rhatach ar gyfer cynnal ffyrdd | £45,000 | £0 | O fod yn defnyddio 'non premium binder' wrth gynnal ffyrdd ystyrir y gellir arbed arian. Ni chredir y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth. Yn wir rydym yn ei ddefnyddio yn barod mewn rhai lleoedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.15 | Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'. | £0 | £210,000 | Gyda chytundeb y Cabinet, mae'r gwaith yma eisoes ar waith gan fod ein offer wedi cyrraedd diwedd ei oes. Mae yna bosibilrwydd wrth gwrs y bydd trigolion perthnasol yn dod i ganfyddiad nad yw'r gwasanaeth cystal â'r presennol heb oruchwyliaeth ond o ddefnyddio offer modern mae modd chwyddo lluniau camera sy'n edrych dros ardal ehangach a chael yn agos at yr un effaith. | Gan y bydd y system a ddefnyddir yn well bydd effaith positif ond ar y llaw arall ni fydd yn cael ei wylio drwy'r amser. Felly bydd effaith bositif a negyddol ar bob nodwedd cydraddoldeb. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad10 |
| 2.16 | Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid i ddiwrnod casglu i drigolion) | £0 | £150,000 | Mae ein profiad yn amlygu fod yna ddadl dros newid ein trefn shifftiau o ran casglu gwastraff. Tra na fyddai hyn yn golygu newid i amlder ein casgliadau, byddai'n golygu newid diwrnodau casglu i rai. Fe allasai helpu fodd bynnag gyda'r gwyn ein bod yn methu rhai casgliadau oherwydd bod rhai ar y lori yn anghyfarwydd a'r rownd gan mai'r un rhai fyddai wedyn ar y rownd yn barhaus. Fe allasai hyn helpu hefyd i greu "perchnogaeth" o'r rownd ymysg y gweithlu. | Positif - Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Effaith debygol wrth weld llai o ruthro i gyflawni gwaith. Perchnogaeth criw i'r un gylchdaith yn golygu y byddent yn gallu adnabod pobl sy'n derbyn cymorth ychwanegol. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad11 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd newid diwrnod casglu i nifer o drigolion yn achosi peth dryswch ar y cychwyn.  Angen trefn amgen i sicrhau cwblhau'r dasg (cylchdaith) i roddi sicrwydd i'r trigolion bod y casglu yn cael ei wneud ar y diwrnod. | | |
| 2.17 | Cefnogi a hyfforddi gwarchodwyr plant a meithrinfeydd ein hunain | £24,980 | £0 | Lleihad yn y gallu i ddarparu pecynnau hyfforddi a grantiau 'set up' i warchodwyr plant ac i feithrinfeydd. Ni fyddai effaith sylweddol ar blant a theuluoedd gan y byddai modd i'r gwasanaeth ddarparu'r hyfforddiant yn fewnol heb yr angen i gomisiynu yn allanol. | Bydd unrhyw effaith ar blant yn gyfyngedig | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad12 |
| 2.18 | Lleihau'r gyllideb Lwfans Cynllun Cynnal | £0 | £30,900 | Mae hon yn gyllideb fydd yn lleihau mewn gwariant dros y blynyddoedd nesaf gan ei bod yn gwireddu pecynnau cefnogi teuluoedd o dan gynllun hanesyddol. Nid oes unrhyw wariant yn cael ei gymeradwyo o'r newydd o'r gyllideb hon ers nifer o flynyddoedd ac fe fydd yn dod i ben pan mae'r bobl ifanc sydd yn parhau i dderbyn y lwfans yn troi yn 18oed. Ni fydd defnydd pellach ohoni ar ôl y 3 mlynedd nesaf ac felly ni fydd effaith ar blant a theuluoedd. Nid oes modd bellach i gymeradwyo cynlluniau o dan y trefniant yma oherwydd newid deddfwriaethol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 2.19 | Gwireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng | £12,700 | £0 | Darperir y gwasanaeth yma gan Uned ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru.  Dengys sgwrs gyda rheolwr yr uned y dylem fedru weld arbediad effeithlonrwydd pellach o'r maint yma dros y 3 blynedd nesaf. Mae £10,000 o hwn eisoes wedi ei gyflawni ac ni ddylai gael effaith o unrhyw sylwedd ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio | £0 | £50,000 | Mae defnydd ceir trydan yn cynyddu'n yn sydyn a galw cynyddol am bwyntiau gwefru mewn meysydd parcio. Mae manylion y grantiau sydd ar gael ar gyfer ariannu'r offer wrthi'n cael eu cyhoeddi. O'i wireddu byddai yna effaith bositif ar drigolion Gwynedd gan fod diffyg pwyntiau gwefru yn broblem i unrhyw un sy'n ystyried prynu car trydan yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae angen gwaith manwl ar y cynllun hwn cyn gallu datgan sicrwydd o allu ei wireddu, a phwysleisiwn mai amcan yn unig ydi'r ffigwr cychwynnol yma. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 3.2 | Buddsoddi mewn gwelliannau byddai yn gwneud y Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol | £0 | £100,000 | Mae'r Adran wedi derbyn adolygiad busnes o'r Neuadd sy'n amlygu o wneud newidiadau a chyda buddsoddiad cyfalaf modest, y gallai arwain at wneud y neuadd £100,000 yn rhatach i'w redeg ymhen 3 blynedd o wireddu'r cynllun. Pan drafodwyd sefyllfa Neuadd Dwyfor yn ystod ymarferiad Her Gwynedd fe benderfynodd y Cyngor na ddylid torri'r gyllideb yma bryd hynny , ond fod hynny yn amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd.<br><br>Nid oes diddordeb lleol wedi bod mewn rhedeg y Neuadd ond o wireddu'r cynllun yma byddai cost yr adnodd yn syrthio i £48,000 y flwyddyn. Wedi dweud hynny nid ydym yn rhedeg y fath gyfleuster mewn unrhyw leoliad arall. | Bydd peidio â buddsoddi yn arwain yn y pen draw at orfod cau a pheidio darparu gwasanaethau celfyddydol o'r Neuadd. Byddai hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar fwrlwm a gweithgareddau yn y Gymraeg. Mae nifer o weithgareddau celfyddydol yn targedu oedrannau penodol e.e. plant a phobl ifanc, pobl hŷn, bobl anabl a byddai cau neu gael prisiau rhy uchel yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad13 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Creu Uned Gofal Ysbaid newydd yn Tan Y Marian a fydd yn lleihau costau talu am leoliadau allanol | £21,500 | £21,500 | Mae angen creu Uned Gofal Ysbaid 'bespoke' newydd yn Tan Y Marian i ganolbwyntio ar anghenion dwys a chymhleth. Mae'r angen yma wedi amlygu ei hun am sawl rheswm:-<br><br>1. Newid mewn anghenion dwys a chymhleth yr oedolion rydym yn gefnogi<br>2. Newid yn anghenion oed trosiannol (ifanc, canol oed, oedolion hyn)<br>3. Llai o achosion yn all-sirol a fwy o oedolion yn derbyn cefnogaeth ddwys yn lleol<br>4. Mwy o oedolion gydag anghenion dwys a chymhleth yn byw gartref<br>5. Angen ail edrych ar y 'block booking' o wythnosau ofal ysbaid mewn dau leoliad yng Ngwynedd. Y gwasanaethau yma bellach yn methu cyfarch anghenion yr oedolion gydag anghenion corfforol ac ymddygiad mwy dwys.<br><br>Hefyd, rydym angen gosod fframwaith sirol gofal ysbaid gyda ‘menu’ o ddewis ar sail galw, anghenion a lleoliad er mwyn darparu dewis ac ystod eang o wasanaethau ar draws y sir. Hynny ar sail y rhesymau uchod a hefyd er mwyn gosod trefn ar gyfer y ffordd rydym yn comisiynu gofal ysbaid. Bydd hynny yn fwy cost effeithiol yn hytrach na dilyn trefn 'spot purchase' o gyfleoedd ofal ysbaid ychwanegol. O wneud hyn oll rhagwelir y byddwn yn creu arbedion drwy leihau'r contract 'block booking, lleihau defnydd o'r drefn 'spot purchase' a chau y cyfleon 'block booking' sydd yn bodoli ar hyn o bryd. | Mae’r gwasanaethau a gynigir yn y safle yma yn benodol ar gyfer unigolion anabledd a’u teuluoedd/gofalwyr. Bydd anghenion pob achos yn cael ei asesu yn unigol a darpariaeth addas a phriodol yn cael ei gynnig. Hyderir y bydd y cynllun hwn yn cryfhau y ddarpariaeth gwasanaeth gofal ysbaid yn y Sir. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad14 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.4 | Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd). | £0 | £300,000 | Mae'r Cyngor wedi datblygu dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol eisoes yng Ngwynedd - Bala (Awel y Coleg) a Bangor (Cae Garnedd) a'r 3ydd yn y broses o gael ei gwblhau ym Mhorthmadog (Hafod y Gest) gyda tharged arbedion ynghlwm. Yn seiliedig ar ein profiadau hyd yma, amcangyfrif y gellir gwneud arbediad o £200,000 gyda phob datblygiad newydd o gael y rhaniad a'r cydbwysedd cywir anghenion gofal ymhob datblygiad. Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol i adeiladu 3 safle tai gofal ychwanegol arall yng Ngwynedd, ond yn ogystal â chreu arbedion byddai'n cwrdd â gwir anghenion bobl hyn yn well.<br><br>Yn naturiol, byddai'n gynllun hir dymor. Byddai asiantaeth dai yn gyfrifol am adeilad. Y costau gofal fyddai'n gyfrifoldeb ar yr adran. Mae yna bosibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth i unigolion ac anableddau dysgu, anableddau corff a chyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â darpariaeth i bobl hyn yn unig. Y ddarpariaeth yn golygu fod unigolion yn cael eu tenantiaeth eu hunain ac yn gallu derbyn cefnogaeth amserol petai angen i'w galluogi i barhau yn annibynnol am gyhyd ac sy'n bosib yn eu cymunedau lleol. Tystiolaeth fod yn bosib darparu gofal i unigolion ac anghenion gofal dwys iawn o fewn y cynlluniau. Y cynlluniau yn galluogi i gyplau allu aros gyda'i gilydd a derbyn cefnogaeth ac yn galluogi teuluoedd i barhau i ddarparu elfennau o gefnogaeth petaent yn dymuno. | Dylai y buddsoddiad a'r newid yn y ffordd bydd gwasanaethau gofal yn cael eu darparu gael effaith cadarnhaol i bawb sydd yn derbyn gwasanaeth. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad15 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.5 | Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol | £0 | £100,000 | Mae cyfrifoldeb ar yr Adran i ddarparu llety dros dro i unigolion sy'n ddigartref. Mae'r Adran yn sicrhau llety mewn gwahanol ffyrdd ond yn cael anhawster adnabod llety addas ar gyfer rhai unigolion gan fod prinder darpariaeth ar gael ac yn gorfod cyfrannu at gost y ddarpariaeth. Byddai cyflenwad o eiddo ychwanegol pwrpasol o gymorth i leihau dibyniaeth ar ffurfiau mwy costus. Pe gellid sicrhau buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor i sicrhau bod unedau llai a llety amgen ar gael gellid lleihau dibyniaeth ar lety dros dro. Rhaid sicrhau rheolaeth o'r unedau a bod gennym fynediad uniongyrchol iddynt a chyllid cynnal i osgoi heriau rheolaethol. | Mae'r cynllun wedi ei seilio ar gyfarch anghenion unigolion. Bydd hynny wedi ei seilio ar asesiad penodol o'u hamgylchiadau. Gan fod y cynllun yn ymwneud â gwella adroddiadau a chyfleusterau, dylai arwain at ddim newid neu newid cadarnhaol i'r rhai sydd yn cael eu cefnogi. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad16 |
| 3.6 | Gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y Sir | £0 | £45,900 | Rydym eisoes wedi newid 10,264 o unedau goleuo stryd i LED. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth am £1.389m trwy gynllun benthyciadau'r Llywodraeth er mwyn cyflawni gwaith fyddai'n cychwyn yn Ebrill 2019 a chwblhau ym Mawrth 2022 i newid 7000 o lampau ffyrdd 'mwyaf' i rai mwy effeithiol. £184,000 fydd y swm ar gael ar ddiwedd y cyfnod y byddwn wedi ad-dalu'r benthyciad yn ôl ond dim ond 45,900 yn y blynyddoedd cychwynnol. Bydd trigolion yn sylwi ar y cychwyn cyn dod i arfer gyda'r goleuadau newydd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.1 | Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1 | £43,000 | £0 | Ar hyn o bryd rydym yn codi 80c am yr elfen gwarchod cyn ysgol yn ein hysgolion ac mae oddeutu 2000 o blant yn manteisio ar y gwasanaeth. O gynyddu'r ffi i £1 byddai'n rhaid i deuluoedd dalu mwy am y gwasanaeth gyda'r perygl y byddai rhai yn dewis peidio parhau a gorfod newid eu patrymau gwaith er mwyn dygymod. Gallai hefyd olygu llai o blant yn dod i gael brecwast am ddim. | Ni ragwelir y bydd yn cael effaith sylweddol negatif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gan fod y codiad yn y ffî yn gymharol fychan er fod effaith ar blant tlotach wedi ei adnabod (e.e. rhai sy'n dod o deuluoedd hefo aelod anabl neu o leiafrif ethnig) | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad17 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.2 | Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dwr er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth. | £12,500 | £12,500 | Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd archwilio a samplo dyfroedd dwr yfed preifat er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r ystod gwaith sydd ei angen i wneud hynny wedi newid dros y blynyddoedd ac fe ddylai'r ffi a godir adlewyrchu hynny. Yn naturiol o'i godi bydd yn rhaid i ddefnyddwyr ffynonellau dwr preifat dalu mwy am y gwasanaeth ond dim ond i'r graddau y mae'n cwrdd â'r gwir gostau o wneud y gwaith. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.3 | Cynyddu incwm drwy wella'r drefn o godi cosb ar ymgymerwyr lle nad ydynt yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth wrth weithio ar ein lonydd. | £15,000 | £0 | Mae modd defnyddio system dechnoleg yn fwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar weithiau ymgymerwyr statudol . Mae trefniant cosb ariannol mewn lle ar gyfer peidio â chydymffurfio a'r ddeddfwriaeth. Byddai cael gwell rheolaeth ar y gweithiau yn arwain at adnabod unrhyw anghysondebau gan ddenu hysbysiadau cosb. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.4 | Cynyddu incwm drwy ddileu parcio am ddim o Nadolig 2019 ymlaen; cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio gan ystyried sut y gellir yr un pryd a oes modd cadw cost parcio i drigolion yr un fath neu ei leihau hyd yn oed. | £82,500 | £97,500 | Mae Parcio am ddim dros gyfnod Nadolig yn golled incwm o oddeutu £45,000.<br><br>Byddai newid criteria ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos yn golygu y byddwn yn codi mewn mannau sy'n ddi-dâl ar hyn o bryd, yn ogystal â chynyddu ffioedd mewn rhai lleoliadau.<br><br>Byddai codi ffioedd parcio oddeutu 10% yn amlwg yn cynhyrchu fwy o incwm ond yn taro ymwelwyr a thrigolion Gwynedd yr un fath . Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor byr byddai cost parcio am awr yn cynyddu wedyn o £1 i £1.10. Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor hir byddai cost parcio am 4 awr yn cynyddu o £2 i £2.20.<br>Yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud yw ystyried a ellid osgoi'r cynnydd yma ar gyfer trigolion Gwynedd neu hyd yn oed ei leihau drwy | Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | leihau pris tocyn tymor i drigolion dyweder. Byddai angen cryn dipyn o waith i sefydlu'r cynllun terfynol yn amlwg. | | |
| 4.5 | Codi ffioedd difa pla er mwyn dod yn agosach at brisiau'r farchnad | £5,000 | £5,000 | Mae gwaith diweddar i gynyddu incwm drwy godi ffioedd a denu cwsmeriaid newydd wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn parhau i fod yn rhatach na chwmnïau eraill ac ymddengys felly fod yna gyfle i godi ffioedd. Byddai yna effaith fechan ar drigolion Gwynedd yn sgil cynnydd bychan mewn ffioedd e.e. triniaeth llygod mawr mewn tŷ yn codi o £40 i £45 sydd yn parhau yn gystadleuol wrth gymharu gydag oddeutu £60 gan gwmnïau preifat. Yn naturiol fe fydd angen monitro'r sefyllfa yn ofalus i sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pris cystadleuol o gymharu ag eraill. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod oherwydd nad yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad19 |
| 4.6 | Cynyddu'r ffioedd a godir ar Ymgymerwyr Statudol ayb am gau ffyrdd / gorchmynion traffig yn sylweddol uwch. | £12,500 | £17,500 | Mae'r cynllun yma yn golygu cynyddu ffioedd a godir ar ymgymerwyr statudol ac eraill am gau ffyrdd neu i baratoi gorchmynion traffig yn sylweddol uwch. Byddai'r effaith ar ein trigolion yn gallu cynyddu, h.y. drwy i gostau cynnal digwyddiadau gynyddu gan effeithio budd i gymunedau (rhai sydd ddim yn fasnachol eu natur). Fe allasai hyn wrth gwrs arwain ar ddigwyddiadau un ai yn cael eu cynnal heb adael i ni wybod, allasai gynyddu risg i'r cyhoedd, neu fod digwyddiadau ddim yn cael eu cynnal a lleihau'r budd cymunedol. | Mae'r Uned yn aml yn ymgymryd â chamau yn benodol mewn ymateb i geisiadau gan bobl anabl a theuluoedd er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd sy'n peri risg iddynt. Pe bai'r gyllideb yn cael ei leihau, mae'n bosib na all yr Uned ymgymryd â'i holl gynlluniau diogelwch gan gynyddu'r perygl i bobl anabl a theuluoedd. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad20 |
| 4.7 | Cynyddu incwm yr Uned Iechyd Galwedigaethol drwy werthu mwy o wasanaeth | £20,000 | £0 | Mae'r Uned yn cynhyrchu incwm drwy werthu gwasanaeth iechyd galwedigaethol i sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cynnydd yn y targed incwm yn seiliedig ar berfformiad y Gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.8 | Denu incwm ychwanegol drwy wneud gwaith i gyrff cyhoeddus eraill | £46,340 | £10,000 | Rydym wedi bod yn trafod yr hyn a ddarperir i gyrff allanol i adlewyrchu'n well y ddarpariaeth a roddir iddynt. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.9 | Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd | £0 | £20,000 | Mae system tracio fflyd fewnol wedi'i ddatblygu yma yng Ngwynedd, sy'n dod ag arbedion o tua £100,000 i'r Adran Priffyrdd. Mae cryn ddiddordeb gan awdurdodau eraill, wedi ymdrech i werthu'r system iddynt. Bydd ein gallu i gynhaeafu'r arbediad yn dibynnu ar y partïon eraill yn cytundebu, ond gwelir cyfle i godi incwm ychwanegol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.10 | Cynhyrchu incwm drwy atal twyll | £0 | £40,000 | Byddem yn sefydlu'r gwasanaeth er mwyn ceisio adnabod mwy o achosion twyll na'r hyn a wneir eisoes. Yn amlwg, mae'r swm a nodir yn warged sydd angen i'r gwasanaeth ei gynhyrchu ar ôl ystyried costau ei sefydlu a'i redeg. Mae yna risg na fyddai'r swm yn gwireddu ei hun, ond ni fyddwn yn gwybod heb ymgeisio. Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, sefydlwyd gwasanaeth atal twyll 'SFIS' gan y DWP, yn cynnwys trosglwyddo cyn staff atal twyll y Cyngor i'r DWP yn 2015/16, cyn gweld canlyniad gweithrediad SFIS, nid oedd modd amcangyfrif maint y twyll gweddilliol tebygol. Wrth gwrs, mae'n anochel bydd elfen o dwyll sydd heb ei adnabod, a bron yn amhosib amcangyfrif faint. Mae yna risg go iawn o ddibynnu ar y swm yma felly. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.11 | Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Fewnol | £0 | £100,000 | Yn hytrach na dibynnu ar asiantaethau allanol i fynd ar ôl dyledion, byddai modd sefydlu uned ein hunain. Byddai'r symiau y byddai'n rhaid i ddyledwyr eu talu (ar ben y ddyled) yn parhau i fod yr un fath ond byddai elw sy'n cael ei wneud gan asiantaethau masnachol yn dod i'r Cyngor yn hytrach nag i gwmni preifat. Mae llwyddiant mentrau o'r fath ar draws gogledd Cymru wedi bod yn amrywiol. Byddai yna gostau ynghlwm â | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chyflwyno'r gwasanaeth. Hefyd, mae risg arwyddocaol o fethu denu'r incwm ychwanegol, a phosibilrwydd o ddirywiad yn y cyfraddau casglu trethi. | | |
| 4.12 | Cysoni trefniadau parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd (e.e. ardal Y Glyn) | £20,000 | £20,000 | Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ym Mharc Padarn. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn mannau ychwanegol (e.e. ardal Y Glyn) a fyddai yn cysoni'r trefniadau. Mae'n bwysig nodi mai trigolion Gwynedd ydi canran uchel o'r ymwelwyr sydd yn defnyddio'r safle ar gyfer pwrpasau hamdden. Byddai hefyd yn amcan i geisio cael cyrff eraill i gymryd cyfrifoldeb dros ein parciau gwledig gan leihau'r gost i ni o'u darparu. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu. | Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18 |
| 4.13 | Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle | £15,000 | £35,000 | Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ger prif draethau. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn lleoliadau ychwanegol lle nad ydym yn codi ar hyn o bryd a fyddai yn gyson gyda mannau eraill e.e. traeth Dinas Dinlle. Dylid nodi fod canran uchel o ymwelwyr i'r traethau (yn enwedig allan o dymor) yn drigolion Gwynedd a gall arwain at gynnydd mewn parcio ar y ffordd. | Mae'r polisi'n debygol o gael effaith ar bobl sy'n fwy tlawd e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, pobl o leiafrif ethnig neu deulu hefo aelod anabl. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar faint y ffi. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad18 |
| 4.14 | Cynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15. | | £10,000 | Mae modd cynyddu ffioedd lansio cychod o lithrfeydd y Cyngor o £10 i £15. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.15 | Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau | £5,000 | £5,000 | Mae yna 70 o ysgolion wedi ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth archifau eleni ac maent yn talu 50% o gost y gwasanaeth drwy dalu ffi o £254 yr ysgol. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn ffi ysgolion i £397 yr ysgol, sef cynnydd o bron i £150 yr ysgol (yn ddibynnol ar nifer ysgolion fydd wedi ymrwymo). | Os nad yw'r Gwasanaeth yn parhau pe bai Penaethiaid ysgol ddim yn gallu sicrhau y gyllideb ychwanegol gallai effeithio'n sylweddol ar y nodweddion cydraddoldeb canlynol:<br><br>Cenedligrwydd – Mae'r deunyddiau'n cyfleu hanes y cymunedau gan adlewyrchu Cymreictod y Sir. Ymwybyddiaeth o gyd-destun ehangach eu cymunedau i ddisgyblion gan gryfhau hunaniaeth ac ymdeimlad o le.<br><br>Yr iaith Gymraeg – Fel uchod Mae disgyblion drwy ddeall mwy am wreiddiau eu cymunedau yn gallu ymfalchïo yn hanes eu bro a chryfhau eu hunaniaeth bersonol a chymunedol.<br><br>Oedran – effeithio ar gyfleoedd plant i feithrin a datblygu sgiliau ac yn lleihau eu profiadau. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad21 |
| 4.16 | Cynyddu ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amlddeiliadaeth o £140 i £180 yr ystafell | £0 | £20,380 | Rydym yn codi tal am archwilio a thrwyddedu eiddo amlddeiliadaeth gyda thrwydded wedyn yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r tal yn cyfrannu at gost y gwasanaeth a gellid codi'r ffi wrth aros o fewn canllawiau'r llywodraeth. Ar hyn o bryd, codir £140 fesul ystafell a rhagwelir byddai modd codi'r ffi i tua £180 yr ystafell. Mae yna berygl y byddai yna gynnydd posibl mewn lefel rhenti i rai tenantiaid bregus wrth i'r gost gael ei throsglwyddo. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad22 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.17 | Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel | £10,000 | £10,000 | Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar gydweithio rhanbarthol neu ymestyn pwerau gweithredu i eraill o fewn y Cyngor er mwyn gweithredu ar hwn. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad23 |
| 4.18 | Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau | £25,000 | £75,000 | Mae yna nifer o opsiynau i arbed arian yn y maes gwastraff gardd. Byddai modd codi ar y ffi flynyddol a neu leihau'r gwasanaeth i 9 mis yn bosibl ond efallai yn creu elfen o anniddigrwydd ymysg tua traean o'n trigolion. Byddai angen ymgynghori ar y dull ffafredig o gael yr arbediad gyda'r trigolion. | Bydd yn effeithio pobl sydd ar incwm isel, sydd ddim yn gallu gwaredu eu gwastraff gardd am ddim yn y Canolfannau Ailgylchu. Y gallai hyn gynnwys grwpiau o bobl fel rhai sydd ar fudd-daliadau mewn perthynas ag anabledd neu bensiynwyr ar incwm isel. Byddwn yn edrych ar ffyrdd i liniaru'r effeithiau hyn. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad24 |
| 4.19 | Codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion | £6,250 | £18,750 | Mewn blwyddyn mae gofyn i ni ail gyflenwi 12,000 o gynhwysyddion gwastraff ac amcangyfrifir bod tua 75% o'r achosion yma oherwydd difrod gan drigolion. Gallwn ofyn iddynt dalu am ailgyflenwi. Fel cam cyntaf byddem yn codi am ail gyflenwi bin gweddilliol yn unig. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad25 |
| 4.20 | Codi ffi ychwanegol am amlosgi ar yr un diwrnod a'r gwasanaeth | £10,000 | £10,000 | Mae modd symud trefniadau'r amlosgfa i un lle rydym ond yn amlosgi ar yr un diwrnod os bydd taliad ffi ychwanegol. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad26 |
| 4.21 | Codi ffi amlosgi yr Amlosgfa o £520 i £550 | £7,500 | £22,500 | Codi ffi amlosgi o £520 i £550. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.22 | Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr | £5,000 | £15,000 | Ar hyn o bryd ni chaniateir i fasnachwyr fynd a deunydd i'r canolfannau ailgylchu. Drwy drwyddedu masnachwyr i gael gwneud hynny gallwn gynyddu incwm. Ni fydd effaith ar drigolion. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.23 | Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. Rwbel £3 y bag neu £30 lond trelar) | £25,000 | £75,000 | Mae rhai cynghorau cyfagos yn codi ar drigolion am fynd a deunydd DIY i'r canolfannau ailgylchu. Mae'r deunydd yma yn ddrud i'w ailgylchu ac mae gennym bryderon fod masnachwyr yn dod a deunydd i'r safleoedd gan honni mai unigolion preifat ydynt. Rhagwelir codi ffi ar nwyddau megis rwbel, teiars, asbestos ac eraill. Er enghraifft Rwbel £3 y bag neu £30 lond trelar, teiar £4 yr un asbestos £12 y bag. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.24 | Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau | £0 | £100,000 | Er nad oes rhaid i ni ddarparu'r gwasanaeth 'rydym yn casglu gwastraff gan fusnesau ac mae o'n talu am ei hun. Mae yna ddarparwyr preifat wrth gwrs ac i raddau mae'r ffaith fod y cyngor yn darparu gwasanaeth yn helpu i gymedroli'r farchnad ac yn helpu i dalu am ein costau gorbenion. Byddai modd codi mwy ond gyda'r perygl y byddem wedyn yn colli busnes ac yn gwneud y gweddill yn aneffeithlon. Ni fyddai yna effaith ar drigolion ond bydd effaith ar 2001 o fusnesau yn y Sir. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.25 | Cynyddu incwm drwy wneud gwaith cyfreithiol i sefydliadau cyhoeddus eraill | £33,000 | £0 | Fel rhan o waith o geisio annog mwy o incwm mae'r Uned wedi llwyddo i greu mwy o incwm drwy wneud gwaith i eraill . Mae'r incwm yma eisoes mewn llaw ac felly ni fyddai yna oblygiadau ar bobl Gwynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.26 | Codi ffioedd YGC yn y maes gwaith ymgynghorol peirianneg sifil. | £40,000 | £0 | Codi ffioedd d er mwyn adlewyrchu symudiad o fewn y farchnad sector breifat. Byddai costau i gleientiaid yn codi wrth gwrs ond ystyrir fod hyn yn gynaliadwy o ystyried y farchnad bresennol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.27 | Cynyddu Incwm ar gyfer y maes atal llifogydd | £25,500 | £25,500 | Oherwydd yr her o newid hinsawdd mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ennill gwaith fydd yn cyfrannu mwy o incwm o leiaf am y 5 mlynedd nesaf. Bydd angen cyflogi 3 swyddog ychwanegol er mwyn medru cyflawni'r gwaith hwnnw gyda risg isel i'r gwaith hwnnw leihau ar ôl 5 mlynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.28 | Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru. | £7,500 | £22,500 | Mae'r adran yn datblygu arbenigedd yn y maes o atal llifogydd nad yw ar gael mewn nifer o gynghorau ac ystyrir y gellir gwerthu rhywfaint o'r arbenigedd yma i gynghorau eraill yng Nghymru. Byddai angen cyflogi 2 swyddog ychwanegol er mwyn gwneud hynny ond am y 5 mlynedd gyntaf byddai'r incwm yn ddigonol i gwrdd â'r gost a chreu elw uwch. Byddai yna risg bychan y gallasai'r gwaith leihau ar ôl y cyfnod 5 mlynedd gyntaf. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 4.29 | Cynyddu incwm drwy gynnig fwy o gefnogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ar gynlluniau mawr. | £10,000 | £0 | Mae yna gyfleoedd pellach i'r Adran gynnig swyddogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ac er nad oes sicrwydd y gellir ei ennill, dengys profiad fod y cyfle yno a dylid anelu i ymestyn gorwelion yr adran i geisio ennill y fath waith. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 5.1 | Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill | £0 | £50,000 | Y bwriad yma yw trosglwyddo rhai asedau i'r Cyngor Cymuned / Cyngor Tref neu o bosibl i Grŵp Cymunedol. Os am gyrraedd y ffigwr byddai angen trosglwyddo rhwng 6 a 10 toiled. Byddai cyrraedd y swm yn ddibynnol ar ddarganfod cyrff fyddai'n fodlon eu cymryd a'u rhedeg. | Yn gyffredinol am gael effaith bositif ar nodweddion anabledd, oedran (pobl hŷn a theuluoedd) a beichiogrwydd a mamolaeth. Bwriad y cynnig yw nid yn unig cyflawni arbedion ariannol, ond i geisio gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau ei ddarparu. Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Cyngor wedi asesu anghenion eu cymuned er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl, a ble mae'n briodol. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad27 |
| 5.2 | Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill | £0 | £210,000 | Mae yna gostau sylweddol ynghlwm a rhedeg meysydd chwarae ond mewn rhai lleoliadau mae yna gymdeithasau neu gynghorau lleol yn eu rhedeg. Yn wyneb hyn rhaid gofyn bellach yn yr hinsawdd bresennol a all y Cyngor barhau i wario ar y cyfleusterau yma. Y bwriad yma yw cynnig i gymdeithasau neu gynghorau eu derbyn a'u | Effaith posib os na fyddent yn llwyddiannus yn trosglwyddo'r asedau i'w rhedeg gan eraill. Gall y canlynid o beidio eu cynnal gael effaith negyddol o ran cyfleoedd i blant a theuluoedd cael rhywle i chwarae tu allan sydd yn bwysig iddynt gadw'n iach a heini. Yn yr | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad28 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhedeg neu stopio eu cynnal yn gyfan gwbl ar ôl amser penodol. | achos yna byddai angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb llawn. | |
| 6.1 | Lleihau cyfraniad y Cyngor i Gwasanaeth Gwe o 1% | £6,410 | £0 | Mae'r Cyngor yn cyfrannu £640,000 i GwE ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion. Byddai lleihau'r cyfraniad yn lleihau'r adnodd fyddai ar gael i'w gynnig i ysgolion ond mae'n anodd meintioli yn union beth fyddai goblygiadau gan mai lleihau rhywfaint ar y gefnogaeth i'r ysgolion fyddai'r effaith ymarferol ac anodd yw darogan pa bryd y byddai hynny yn cael effaith. Y tebygolrwydd yw, gan mai canran fechan ydyw mai prin fyddai'r effaith ac y gellid canolbwyntio'r gostyngiad ar yr ysgolion hynny sydd angen llai o ymdrech. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 6.2 | Dileu'r gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion | £36,780 | £36,780 | Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cefnogi llythrennedd a darllen yn yr ysgolion cynradd drwy Lori-Ni sy'n ymweld â'r ysgolion o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn cyfoethogi profiadau darllen plant. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd hefyd yn darparu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ar gais athrawon, mae'r adnoddau yn cynnwys llyfrau, sachau stori, deunyddiau rhyngweithiol ar gyfer y bwrdd gwyn, a setiau darllen grŵp sydd yn cyfoethogi natur y deunyddiau a'r profiad cwricwlaidd sydd ar gael i blant. Heb yr adnodd yma byddai plant â llai o fynediad at lyfrau a phrofiadau darllen hamdden, a byddai'r ysgolion a llai o adnoddau cwricwlaidd i'w galluogi i sicrhau profiadau addysg o ansawdd i blant. | Cydnabyddir y bydd y cynnig yn cael effaith ar blant, ond ni ragwelir i'r effaith hwnnw fod yn sylweddol negyddol. Mae hyn oherwydd disgwylir i ysgolion ddarparu llyfrau addas sy'n adlewyrchu gwahanol nodweddion cydraddoldeb drwy ffyrdd amgen. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad29 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.3 | Lleihau amlder glanhau rhai ardaloedd mewn Ysgolion drwy gwtogi oriau o 1.7% | £17,560 | £17,560 | Ar hyn o bryd rydym yn glanhau ysgolion drwy fanyleb sy'n gyffredinol yn glanhau lloriau'r ysgol gyfan yn cynnwys toiledau a sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol, mopio tamp a sgwrio lloriau amryw o ardaloedd ond nid i gyd yn ddyddiol a 1 wythnos o lanhau dwfn (spring clean). Mae hyn oll yn costio £2,045,320. O leihau'r gyllideb o £35,120 byddai'n rhaid cwtogi amlder glanhau rhai ardaloedd o fewn yr ysgol, yr unig ffordd o wneud hyn fyddai cwtogi oriau staff. Golyga hyn, ostyngiad o 1.7% yn oriau glanhau pob safle a all olygu, er enghraifft, na fyddai modd sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol. Byddai hyn yn arwain at ddirywiad yn safonau hylendid ysgolion oni bai fod ysgolion yn dewis atgyfnerthu'r gyllideb o'u cyllideb craidd. | Ni ragwelir effaith sylweddol negatif ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb gan fod maint y toriad oriau yn gymharol fychan o’i ddosrannu ar draws pob ysgol. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad30 |
| 6.4 | Lleihau'r adnodd o fewn yr Uned Diogelwch Ffyrdd | £7,500 | £2,500 | Tîm bach o 1.5 swyddog yw hwn sy'n cyflwyno'r agwedd addysgu, hysbysebu a hyfforddi ar faterion diogelwch y ffyrdd ar draws pob oedran. Mae modd gostwng faint o ddeunyddiau hyrwyddo diogelwch y ffyrdd mae’r Uned yn bresennol yn eu dosbarthu i ddisgyblion ysgol. Ni fyddai hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y gwasanaeth o addysgu pobl fregus. Yn ogystal, mae modd rhesymoli’r nifer o groeswyr plant sydd yn cael eu cyflogi yn bresennol trwy adolygu amgylchiadau safleoedd unigol yn erbyn y meini prawf cyfredol ar gyfer sefydlu darpariaethau croesi. Fyddai hyn yn sicrhau mai ond y safleoedd sy’n peri risg isel i groeswyr fyddai’n cael eu heffeithio. | Mae potensial y byddai gostwng y nifer o groeswyr plant tu allan i’r ysgolion yn cynyddu’r risg diogelwch y ffyrdd i ddisgyblion a rhieni anabl a dim yn anabl h.y. Y byddai’r tebygolrwydd o wrthdrawiad rhwng y disgyblion a rhieni a cherbydau yn cynyddu heb groeswr yno i’w cynorthwyo i groesi’r ffordd. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad31 |
| 6.5 | Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal y llwybrau cyhoeddus | £5,000 | £5,000 | Mae’r arian cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus (Cyllideb o £177,160) yn mynd tuag at gynnal thua 1700 cilomedr o lwybrau categori 1 a 2 yn ogystal â thua 2200 cilomedr o lwybrau categori 3, 4 a di-gategori. Yn unol â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor, rydym yn | Mae’n bosib y bydd mynediad at hawliau tramwy yn hyd yn oed mwy cyfyngedig i deuluoedd, pobl hŷn a phobl anabl pe na fyddai’r Uned yn gallu cwblhau ei raglen gwaith yn llawn. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | blaenoriaethu gwaith ar lwybrau categori 1 a 2, felly mae rhan helaeth o'r cyllid yn cael ei ganolbwyntio ar y rhain. Mae llwybrau categori 1 a 2 yn rhai sydd yn brif lwybrau rhwng canolfannau a'r rhai sy'n cael eu defnyddio yn bennaf er pleser e.e. llwybrau o amgylch cymunedau, llwybrau cerdded cylchol, mynediad i draethau ayyb.<br><br>Mae'r gwaith yn golygu ymgymryd â gwaith adweithiol yn dilyn cwynion, e.e. trwsio'r wyneb, trwsio strwythurau ac ymateb i dywydd eithafol e.e. coed wedi syrthio yn ystod stormydd ac ailosod arwyddion ayyb yn cael ei ymgymryd gan y Cyngor yma. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu rheoli tyfiant, sydd yn cael ei wneud drwy drefniant gydag ambell i Gyngor Cymuned.<br><br>Fe fyddai effaith toriad o £10,000 yn golygu y bydd llai o'r rhwydwaith yn cael sylw, ac yn rhoi straen cynyddol ar ein gallu i annog Cynghorau Cymuned i reoli tyfiant.<br>. | | |
| 6.6 | Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio | £2,500 | £2,500 | Mae'n bosibl rhesymoli rhywfaint ar yr uned drwy newid dyletswyddau a chanfod arbediad ond nodir fod toriad o dros 30% mewn staff wedi bod eisoes dros y 7 mlynedd diwethaf. Fe fydd effaith o leihau arbenigedd a gwydnwch ynghyd a chynnydd mewn oedi mewn cyflawni dyletswyddau statudol ar ran trigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd hefyd arafwch gyda chynghori'r Unedau Cynllunio (Rheolaeth Datblygu) y ddau gyngor ar geisiadau / cyngor cynllunio. Mae angen rhannu'r arbediad gyda Môn 50/50. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith wedi ei adnabod gan mai lleihad mewn arbenigedd yn hytrach na capasiti sydd yma | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad32 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.7 | Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33% | £2,500 | £7,500 | Byddai modd leihau rhywfaint ar gyllideb yr Uned sy'n ymwneud a gorchmynion traffig fyddai'n cyfyngu ar allu'r Gwasanaeth i ymateb i sylwadau'r cyhoedd, heddlu ayyb ar sefyllfaoedd diogelwch e.e. goryrru a pharcio anystyriol. Y gyllideb bresennol o £30,000 sy'n galluogi'r Gwasanaeth i osod gorchmynion ar ein ffyrdd a chario allan gweithiau ffisegol fel gosod llinellau dwbl melyn, cyflwyno parthau gyrru a chyflwyno mesurau tawelu traffig.<br><br>Byddai hyn, o bosib, yn gorfodi'r Gwasanaeth i ystyried gweithredu trefniant cwota i sicrhau nad yw'r gwariant yn mynd yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Byddai'n rhaid i'r math yma o drefniant fod ar sail y cyntaf i'r felin gan na fyddai'n ymarferol casglu rhestr o sefyllfaoedd er mwyn eu blaenoriaethu yn chwarter olaf unrhyw flwyddyn ariannol. Byddai gorfod ystyried y math yma o drefniant yn golygu y byddai llai o orchmynion yn cael eu prosesu. | Mae'r Uned yn aml yn ymgymryd â chamau yn benodol mewn ymateb i geisiadau gan bobl anabl, teuluoedd a phobl hŷn er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd sy'n peri risg iddynt. Fyddai lleihau'r gyllideb ar gyfer gosod y mesurau ffisegol ar y ffyrdd o bosib yn cynyddu'r risg i'r grwpiau yma gan y byddai angen blaenoriaethu pa weithiau sy'n cymryd lle. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad33 |
| 6.8 | Lleihau adnodd cyflogaeth dymhorol o 50% o fewn y Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau | £42,780 | £0 | Bu'n rhaid gwneud defnydd helaeth o oramser yn sgil "backlog" o 2,000 eitem ar ôl haf 2017 a haf 2018. Ar adegau prysur fel Medi/Hydref neu droad y flwyddyn ariannol, heb y gyllideb yma mi fydd oedi cyn rhoi cymorth i bobl Gwynedd i dalu eu rhent, neu wneud addasiad angenrheidiol i'w cyfrifon Treth Cyngor. Mae'n anodd meintioli beth yn union fyddai'r effaith heb adael iddo ddigwydd i weld, ond gellir rhagweld y byddai'n cymryd yn hirach i glirio unrhyw "backlog" gwaith. | Mewn blynyddoedd arferol, bydd y gyllideb sy'n weddill yn ddigonol i ymdopi â phwysau gwaith tymhorol. Mewn blynyddoedd o bwysau anarferol gall prinder cyllideb goramser arwain at oedi mewn deilio â materion trethi neu ymdrin â cheisiadau budd-dal neu Ostyngiad Treth Cyngor. Mae pobl anabl ac unigolion o leiafrif ethnig yn fwy tebygol o fod yn dlawd yn ystadegol a gallai ymdrin â hawliadau budd-dâl, felly, effeithio ar bobl anabl a pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy na'r boblogaeth yn gyffredinol. Wedi dweud hynny, gan nad oes disgwyl i'r | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad34 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | toriad yma achosi unrhyw oedi, mae’r risg yn fychan iawn. | |
| 6.9 | Dileu swydd wag o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes (lleihad o 25% yn y nifer o staff) | £23,000 | £0 | Mae un swydd (allan o 4 yn yr Uned) eisoes yn wag a thra ei fod yn amlwg yn amharu ar allu'r Cyngor i ddelio gyda ymholiadau gan fusnesau unigol, mae'r lefel perfformiad presennol yn adlewyrchu beth sydd modd ei wneud heb y swydd. Yn seiliedig ar ffigurau 2016/7 roedd natur yr ymholiadau yn cynnwys Ymholiadau Tir ac Eiddo (51%); Grantiau a chymorth ariannol (31%); Cymorth datblygu busnes (10%); Gwybodaeth Busnes (6%) a mewnfuddsoddi (2%). Effaith torri'r swydd hon ydi fod oedi yn yr ymateb ymholiadau busnes o gymharu â phe bydda'r swydd yn bodoli, risg na fydda'r Cyngor yn gallu rhoi cymaint o gymorth i bob ymholiad ac na fyddai'r Cyngor yn gallu bod mor rhagweithiol yn codi ymwybyddiaeth busnesau Gwynedd o gyfleoedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 6.10 | Adolygu ffioedd parcio a trefniadau gweithredu Storiel | £10,000 | £10,000 | Mae Storiel wedi ei sefydlu fel amgueddfa ac oriel ym Mangor gydag arddangosfeydd yn cael eu trefnu mewn lloerennau cymunedol ar draws y sir er mwyn ehangu mynediad. Mae'r cynnig yma'n ymwneud ag edrych ar drefniadau gweithredu Storiel o ran cynyddu incwm, gan gynnwys adolygu ffioedd parcio. | Fe all godi targedau incwm effeithio ar ffioedd ac fe all hyn gael effaith sylweddol ar y rhai all gymryd rhan ac at ein hethos o gyfrannu at gefnogi ein cymunedau. Byddai’n rhoi rhwystr i fynediad at weithgareddau treftadol/celfyddydol penodol ar gyfer rhai hiliau, y Cymry, rhai o bob oedran, pobl anabl. Gall arwain at golli cyfle cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, hyrwyddo ein diwylliant unigryw, magu hyder, cysylltu â grwpiau lleiafrifol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad35 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.11 | Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml | £7,500 | £2,500 | Mae 3 cerbyd teithiol cymunedol gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, sef,<br>Llyfrgell Deithiol Arfon - Gwasanaeth Teithiol a Chartref<br>Llyfrgell Deithiol Dwyfor - Gwasanaeth Teithiol a Chartref<br>Llyfrgell Deithiol Meirionnydd - Gwasanaeth Teithiol a Chartref<br><br>Mae'r llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phentrefi a stadau tai led led y sir (140 arosfan) ac yn cyflawni'r gwasanaeth misol 10 gwaith y flwyddyn. Yn ogystal i'r gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol, mae'r cerbydau hefyd yn darparu gwasanaeth danfon i'r cartref i'r defnyddwyr hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi neu sy'n cael trafferthion ymweld â'u llyfrgell leol am resymau gwahanol.<br>Nifer y defnyddwyr 2016-17<br>Arfon - 103 oedolyn, 0 plentyn, 54 caeth i'r tŷ<br>Dwyfor - 156 oedolyn, 1 plentyn, 36 caeth i'r tŷ<br>Meirionnydd - 208 oedolyn, 10 plentyn, 84 caeth i'r tŷ<br><br>Mae'n debyg byddai nifer o'r defnyddwyr sy'n ymweld â'r Gwasanaeth teithiol mewn arosfan pentref yn gymwys i dderbyn Gwasanaeth i'r Cartref ond eu bod yn dewis defnyddio'r arosfan teithiol er mwyn dibenion cymdeithasol.<br>Drwy leihau cyllideb y gwasanaeth, byddai'r llyfrgell deithiol yn ymweld â llai o arosfannau ar draws y sir ac/neu yn ymweld â'r arosfannau yn llai aml. | Y defnyddwyr sydd mewn risg o gael eu heffeithio yw defnyddwyr hŷn a/neu anabl, a fydd yn colli gwasanaeth yn gyfangwbl, neu yn gorfod aros am gyfnod hirach ar ôl gwneud cais am wasanaeth llyfrgell i'r cartref. Gallai'r defnyddwyr hyn fod yn ynysig yn gymdeithasol, ac yn wynebu trafferthion mynediad at lyfrgell gyhoeddus oherwydd problemau symudedd neu anawsterau o ran trafnidiaeth cyhoeddus. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad36 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.12 | Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi (lleihau staffio o 33%) | £20,000 | £20,000 | Byddem yn anelu i gael grantiau i ariannu 1 swydd o fewn yr Uned ond pe na fyddem yn llwyddo byddai'n rhaid dileu'r swydd honno. Byddai hyn yn lleihau ein gallu i ddatblygu prosiectau strategol gan y byddai'r adnodd yn lleihau o 3 swyddog i 2.<br><br>Y math o gynlluniau y bu'r swyddogion yma yn eu cyflawni dros y blynyddoedd diweddar yw targedu £9m i ddatblygu Plas Heli Pwllheli, targedu £13m i gefnogi datblygiad mentrau Glannau Caernarfon (Galeri, Castell, Hen Ynys a Rheilffordd Eryri), targedu £4.5m i gefnogi datblygiad mentrau Awyr Agored Meirionnydd (Coed y Brenin, Deorfa Bysgota Llyn Trawsfynydd, Antur Stiniog, Glanllyn Bala), Sefydlu Rhaglen Siopa Lleol a Rhaglen Trethi Gwella Busnes (BIDS Caernarfon a Bangor), cefnogi menter adfywio Harlech, datblygu achos busnes Safle Treftadaeth Byd i'r dyffrynnoedd llechi a thargedu cronfa Loteri £450k i'r cymunedau ynghyd a sefydlu cronfa i uwchraddio adeiladau gwag.<br><br>Rydym yn y broses o dargedu £25m i uwchraddio safle a mynediad i faes awyr Llanbedr a thargedu £4m i adfywio canol dinas Bangor . Gyda llai o adnoddau staff, byddai llai o brosiectau yn cael eu datblygu a'u gweithredu, gan arwain o lai o fuddsoddiad mewn cymunedau i greu'r amodau fyddai'n diogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.13 | Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (lleihad o 20%) | £37,500 | £12,500 | Byddai dileu 1 swydd a newid trefniadau rheoli yn golygu fod llai o gefnogaeth gan Cyngor Gwynedd i gefnogi mentrau a grwpiau cymunedol. Mae 5 swyddog o fewn yr uned ac fe nodir isod y math o gynlluniau sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth - cefnogi o Ddrws i Ddrws i baratoi cais grant am fws mini newydd; Tafarn yr Heliwr Nefyn i baratoi cais grant i adnewyddu'r dafarn; caffi Noddfa a Cegin Cofi i dargedu cronfeydd grant amrywiol; Fic Penygroes i sefydlu achos busnes cadarn i dargedu grant; Cwmni Nod Glas Dinas Mawddwy i dargedu arian cyfatebol; cefnogi Cylch Meithrin Maesywaun i ail-leoli i safle Ysgol Bro Tryweryn; cefnogi partneriaeth Abermaw i adolygu adnoddau cymunedol a pharatoi achos busnes i drosglwyddo asedau; cynghori a chefnogi Partneriaeth Maesgeirchen gyda phecyn o brosiectau cymunedol; cefnogi Partneriaeth Ogwen gyda phecyn o brosiectau yn amrywio o sefydlu ymddiriedolaeth tir, ynni adeiladau cymunedol ac opsiynau ar gyfer safle'r llyfrgell. | Asesiad cryno wedi ei wneud. Dim effaith wedi ei adnabod | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad37 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.14 | Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata (lleihau staffio o 25%) | £12,500 | £12,500 | Mae'r Uned yma yn Uned o 4 sydd yn cydgordio ymdrechion rhwng partneriaid lleol; rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd a'r diwydiant twristiaeth ei hun yn y sir er mwyn ceisio gwella a hyrwyddo Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth a'i farchnata drwy gyfryngau cymdeithasol a safle We Eryri Mynyddoedd a'r Môr.<br><br>O ddileu 1 swydd byddai'n rhaid blaenoriaethu gweithgaredd allasai olygu -<br>- Leihau gweithgaredd marchnata - gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr, cyfryngau cymdeithasol, taflenni a llyfrynnau ayb;<br>- Leihau gweithgaredd datblygu'r sector e.e. ceisiadau grant i Croeso Cymru i wella'r cynnyrch a'r cynnig yma (Gwelwyd derbyn grantiau o dros £600,000 dros y 3 blynedd diwethaf i wella'r cynnig yma yng Ngwynedd );<br>- Leihau cefnogaeth i'r bartneriaeth dwristiaeth sirol;<br>- Leihau cyfraniad amser ac adnodd swyddogion i waith a phartneriaethau strategol gyda Chroeso Cymru a Gogledd Cymru<br>- Dileu capasiti i weinyddu ceisiadau arwyddion brown a gwyn;<br><br>Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gau rhwydwaith Canolfannau Croeso Gwynedd, mae ymholiadau gan ymwelwyr a diwydiant yn parhau i gael eu cyfeirio at y Cyngor ac ymlaen i'r gwasanaeth. Byddai dileu 1 swydd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i ymateb i ymholiadau gan fusnesau Gwynedd, ymwelwyr a phartneriaid sector gyhoeddus a hynny ar gyfnod lle mae cynnydd sylweddol wedi ei weld mewn nifer ymwelwyr i Wynedd. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.15 | Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden  newydd fydd yn cael ei sefydlu o 20% | £0 | £155,000 | Rydym ar fin sefydlu cwmni masnachol fydd yn ein helpu i wireddu arbedion sylweddol (£435,000).  Bydd hyn yn seiliedig ar y Cyngor yn ymrwymo i dalu sybsidi o £741,000 i'r cwmni yn y tymor byr o leiaf.  Y gobaith yn yr hir dymor yw y bydd y cwmni yn gallu lleihau'r sybsidi y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dalu un ai drwy ddarganfod marchnadoedd eraill neu leihau'r costau rhedeg ymhellach.  Er na fydd modd gwneud hynny yn syth mae'n rhesymol i ddisgwyl i hynny ddigwydd yn yr hir dymor. | Bydd asesiad yn cael ei wneud wrth i'r Cwmni ddatblygu ei gynigion ar gyfer gwireddu'r arbediad | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad38 |
| 6.16 | Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20% | £0 | £18,000 | Fe hanerwyd y gyllideb yma yn ystod proses arbedion Her Gwynedd.  Byddai gweithredu'r cynllun yma yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried lefel y cymorth y gellid ei roi i'r 11 prif gwmni celfyddydol yng Ngwynedd. Nifer ohonynt yn arwain ar brosiectau sy'n cael effaith yn genedlaethol o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru. Y cwmnïau sy'n derbyn cymorth yw - Bara caws; Cerddoriaeth mewn Ysbytai; Canolfan Gerdd William Mathias; Cofis Bach; Dawns i Bawb; Galeri Caernarfon; Fran Wen; Plas Glyn y Weddw; Llenyddiaeth Cymru; Pontio; Theatr Ardudwy; Theatr y Ddraig<br>Nifer o'r cwmnïau hyn yn nodi bod derbyn elfen o gefnogaeth gan y Cyngor yn sicrhau eu bod yn denu arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn sicrhau buddsoddiadau uwch yn y Celfyddydau yng Ngwynedd. | Risg o golli dylanwad ar fudiadau i fabwysiadu polisïau cyfleoedd cyfartal ac iaith Gymraeg. Gall effeithio'n uniongyrchol ar fwrlwm yn y Gymraeg a gweithgareddau'n yr iaith<br><br>Mae nifer o'r rhai sy'n derbyn grantiau yn gweithio gyda grwpiau neu oedran  penodol o'r gymdeithas e.e. unigolion bregus, ieuenctid, pobl hŷn gyda phroblemau iechyd/iechyd meddwl neu sy'n unig, plant  a phobl ifanc, mamau a babanod ayyb.<br><br>Colli cyfle cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu, hyrwyddo ein diwylliant unigryw, magu hyder, cysylltu â grwpiau lleiafrifol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.<br><br>Gall gael effaith ar wasanaethau a mudiadau eraill os bydd lleihad yn y cyfleoedd i gyfranogi e.e. iechyd a lles, gweithgareddau i bobl ifanc. H.y. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad39 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | galw ar fwy o angen gwasanaeth gofal cymdeithasol, ysbytai, heddlu. | |
| 6.17 | Lleihau cyllideb cronfa lyfrau'r llyfrgelloedd o 10% | £19,500 | £0 | Mae'r gyllideb Gronfa Lyfrau wedi cael ei lleihau o 25% yn ystod ymarferiad Her Gwynedd. O'i leihau 10% ymhellach yn amlwg byddai'r dewis sydd ar gael i drigolion Gwynedd gymaint yn llai ac amseroedd aros am lyfrau yn cynyddu gan ei wneud yn llai deniadol i drigolion. | Bydd y toriad yn effeithio ar y grwpiau nodweddion cydraddoldeb yma: Iaith Gymraeg, Anabledd, Oedran – plant a phobl hŷn, Cyfeiriadedd Rhywiol, yn ogystal a nifer fawr o ddefnyddwyr o'r grwpiau yma sydd yn byw ar incwm isel. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad40 |
| 6.18 | Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen | £25,000 | £75,000 | Mae gennym achosion sy'n costio dros £1000 yr wythnos i'r Adran sef lleoliadau all-sirol a phecynnau gofal sydd wedi eu hetifeddu o siroedd eraill o dan reolau 'ordinary residen't. O adolygu'r pecynnau yma ystyrir y gellir cwrdd ag anghenion mewn ffyrdd amgen. Mae'r arbediad yn seiliedig ar waith tebyg sydd eisoes wedi ei gyflawni yn y maes Anabledd Dysgu a bydd yna elfen allweddol o fuddsoddi i arbed drwy fuddsoddi mewn cartrefi addas, a datblygiadau tai gofal ychwanegol.<br>Bydd angen penodi gweithiwr cymdeithasol am gyfnod o 18 mis i weithio ar y cynllun i adolygu'r holl achosion all-sirol a chwblhau dadansoddiad o'r angen sydd yn bodoli rŵan ac i'r dyfodol.<br><br>Bydd hefyd angen buddsoddiad amser staff i gydweithio gyda'r unigolion ac adnabod datrysiadau cywir. Effaith gadarnhaol os ydi'n bosib i unigolion ddychwelyd i gael gofal yn lleol. Rhaid cofio fod rhai o'r unigolion wedi derbyn gofal am nifer fawr o flynyddoedd, felly mae rheoli unrhyw newid a disgwyliadau am fod yn allweddol. Mae elfen o or-wasanaethu yn y pecynnau 'ordinary residence' a bydd yn broses o newid dros amser i ddod i ddygymod a | Mae'r cynllun yn ymwneud a chefnogi a darparu gwasanaethau ar sail angen. Yn sgil hynny, gall y dull o gefnogi fod yn wahanol ac yn fwy lleol neu gyda darparwr gwahanol. Ni ddylai y cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolyn/grwp. Bydd anghenion pob unigolyn yn cael ei asesu ar wahân. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad41 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn modd amgen. | | |
| 6.19 | Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus | £50,000 | £150,000 | Wrth adolygu pecynnau gofal iechyd parhaus 'rydym yn ceisio sicrhau fod Iechyd yn talu cyfraniad teg tuag at y pecynnau gofal a roddir i unigolion yn unol â'r rheolau a sefydlwyd. Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o ran egwyddor 'gwerth gorau', ond hefyd o ran cyfrifoldeb am y pecyn cefnogaeth/gofal. Rydym yn adolygu'r drefn CHC/DST ar y cyd gydag Iechyd ac yn anelu i dderbyn rhagor o fuddiannau o'r gwaith yma.<br><br>Y bwriad yma yw mynd ar ôl yr achosion mwyaf dwys a thra byddwn yn eithaf hyderus o fedru cyflawni oddeutu £100k bydd cyflawni'r holl £200k yn fwy o her o lawer. Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu eisoes wedi gweithredu'r achosion mwy rhwydd a llai dadleuol wrth gyflawni arbedion 600k o ran adolygu pecynnau, cyflawni egwyddorion gwasanaeth gwerth gorau am arian ac wedi herio iechyd am eu cyfraniad. Nid oes modd herio pecynnau mwy nag unwaith.<br><br>Mae yna oblygiadau capasiti staffio i wneud y gwaith a risg o gael her gyfreithiol a chwynion. Mae angen capasiti ychwanegol i graffu'r asesiad anghenion a'r DST ac i fynychu cyfarfodydd "disputes" gydag iechyd pan nad ydi'r asiantaeth yn cytuno ar benderfyniad o ran lefel CHC. | Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â rhesymoli a gwella trefniadau gwaith rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'n ymwneud â'r systemau a'r berthynas tu ôl i raglen i gefnogi unigolion ac nid ar y gefnogaeth ei hun. Ar y sail hynny, ni ragwelir effaith uniongyrchol ar unrhyw unigolion, gan nad yw yn ychwanegu at y trefniadau asesu ar y cyd sydd eisoes yn bodoli. | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad42 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.20 | Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig | £22,500 | £7,500 | Ar hyn o bryd rydym yn dosbarthu calendrau casglu gwastraff ar bapur i bob un o'r 62500 o dai yn y sir. Byddai symud i'w darparu ar lein neu drwy gais yn unig yn creu arbediad sylweddol i ni. Mae gan 34,382 unigolyn gyfrif hunan wasanaeth ar lein ac rydym eisoes yn gohebu gyda rhain drwy'r ffurf yma mewn perthynas â gwasanaeth gwastraff gardd. | Asesiad cryno wedi ei wneud i weld os oedd effaith. Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad43 |
| 6.21 | Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont | £0 | £35,000 | Roedd y cynllun yma yn un a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymarferiad Her Gwynedd ond fe benderfynwyd bryd hynny na ddylid torri'r cyllidebau yma yr adeg hynny , ond fod hynny yn amodol ar gyrraedd targed o leihau'n sylweddol y gost i'r Cyngor o gyfrannu tuag at ei ddyfodol. Rydym yn parhau i dalu £35,000 i Network Rail gan na fu modd leihau'r gost i ni. O beidio talu cyfraniad i Network Rail, mater iddynt hwy yw a ydynt am ei gau at ddefnydd Llwybr yr Arfordir a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol. Bydd adwaith negyddol yn lleol ac o safbwynt atyniad twristiaeth pe na fydde Network Rail yn ei gadw'n agored. | Dim effaith gwahaniaethol oherwydd Network Rail sydd berchen y bont | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad44 |
| 6.22 | Lleihau cyllideb Cymorth i ferched o 20% | £8,080 | £2,690 | Byddai modd lleihau 20% ar y gyllideb Cymorth i Ferched drwy ddileu'r gweithiwr plant o fewn Cymorth i Ferched a Trais yn y Cartref De Gwynedd. Mae'r cyfraniad yn ddewisol ac ar gael i unrhyw deulu sydd wedi dioddef neu yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, nid dim ond i deuluoedd sydd yn adnabyddus i wasanaethau'r Cyngor. Gwynedd yw'r unig awdurdod yn y Gogledd sydd yn cynnal cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched. Nid yw lleihad gan y Cyngor yn golygu na fydd modd i'r mudiad barhau i ddarparu gan fod ganddynt fynediad at ffynonellau ariannu eraill. Mae Cymorth i Ferched yn nodi eu bod yn gwneud defnydd o'r cytundeb gyda'r Cyngor i ddenu arian | Dim effaith sylweddol wedi ei adnabod ar blant a phobl ifanc gan fod gobaith y bydd y mudiad yn gallu defnyddio ffynhonnell amgen o arian | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad45 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | a grantiau eraill i'r mudiad, ond mae yn anodd derbyn cadarnhad o hynny. Bydd gweddill cyfraniad y Cyngor yn parhau a bydd adnoddau'r Cyngor hefyd ar gael i ddarparu gwasanaeth statudol i Ferched sydd ei angen. | | |
| 6.23 | Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth | £1,570 | £520 | Mae darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal, yn anabl neu yn derbyn cynllun gofal a chefnogaeth yn ofyn statudol yn Neddf 2014. Ni fyddai lleihad o 6% yn cael ardrawiad sylweddol ar y niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gan fod y 'take-up' o wasanaeth eiriolaeth gan y plant a'r bobl ifanc cymwys yn isel o gymharu â'r capasiti o fewn y gyllideb sydd yn cael ei glustnodi. Mae yna gytundeb rhanbarthol ac ar ôl 3 mlynedd o weithredu, mae yn amlwg y gellid lleihau 6% heb ardrawiad ar wasanaeth uniongyrchol i blant ar sail data 3 mlynedd. Mae'r cytundeb yn un rhanbarthol gyda chyfraniadau gan y 5 awdurdod arall yn y Gogledd. Mae tebygolrwydd y byddai awdurdodau eraill yn lleihau eu cyfraniadau mewn amser. | Dim disgwyliad y bydd newid yn y ffordd y bydd plant a pobl ifanc yn cael mynediad i'r Gwasanaeth gan fod y niferoedd sy'n manteisio yn isel | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad46 |
| 6.24 | Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth | £5,420 | £0 | Mae gweithgaredd recriwtio a marchnata yn gostus, ond mae modd uchafu ein gweithgaredd ar wefannau cymdeithasol a chyfryngau cost isel a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau cyfathrebu'r Cyngor. Rhagwelir felly mai effaith isel ar blant a theuluoedd fyddai hyn yn ei olygu a hynny oherwydd bod yna risg fechan na fyddai trefniadau newydd mor effeithiol. | Mae'n bosib torri'r gyllideb drwy ddefnyddio dulliau amgen fel fforymau cymdeithasol sy'n rhatach na dulliau traddodiadol felly ni ragwelir effaith | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad47 |
| 6.25 | Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £12,390 | £1,770 | Byddai angen colli 0.4 staff FTE gan rannu'r lleihad ar draws secondiadau ac arian yn y tîm Cyfiawnder adferol (anstatudol), a byddai peth effaith ar blant a theuluoedd drwy leihad yn y gallu i wneud gwaith iawn gyda dioddefwyr; cynnal llai o brosiectau cymunedol a lleihau oriau cyswllt gyda phlant a phobl ifanc. | Nid yw'n effaith sylweddol ar bobl ifanc, ond bydd angen i ni fonitro effaith llai o gapasiti o fewn ein prosiectau cefnogi (Iechyd a Lles a Chymorth Llety). Mae'r gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn o blant a phobl ifanc sy'n manteisio ar y gwasanaeth | www.gwynedd.llyw.cymru/Asesiad48 |

Atodiad 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn helpu i liniaru effeithiau'r gostyngiadau hyn. | |
| 6.26 | Lleihau adnodd o fewn yr Uned Gyfreithiol i gefnogi gwaith adrannau eraill | £7,500 | £7,500 | Dengys ymchwil yn y gorffennol na ellir cael y gwaith wedi ei wneud ar gost is yn allanol. Serch hynny, ystyrir y byddai modd gwasgu mwy o effeithlonrwydd allan o'r sustem gan dderbyn y byddai yna risg o weld mwy o faterion yn wynebu oedi - heb ei wireddu mae'n anodd gallu dweud faint. Byddai hefyd angen darganfod adnodd i lenwi mewn pan mae yna etholiadau. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |
| 6.27 | Ail Strwythuro'r Uned Rheolaeth Adeiladu gan leihau'r nifer o arweinyddion tîm | £23,000 | £0 | Byddai ail strwythuro yn lleihau nifer staff yr Uned o un a thrwy hynny mae yna berygl y gallasai'r amser i wirio cais cynlluniau llawn gynyddu o 13 diwrnod i 15 diwrnod. Mae sgôr arolwg boddhad cwsmeriaid wedi mynd i lawr o 9.6 eleni i 9.0. Mi fydd pob ymdrech yn cael ei weithredu i leihau'r effaith ar foddhad cwsmeriaid gan yr Uned. | Ni ragwelir effaith cydraddoldeb | |